Pris: 50c

# Papur Pawb

Medi 2024 Rhif 501





*Cneifio Cyflym: Siôn a Rhydian Evans yn cyflwyno cwpan Neuadd Fawr i enillydd yr adran agored, Huw Jones, Abergynolwyn. Adroddiad ar dud. 12 (llun: Thomas Lloyd)*

## RHIFYN ARBENNIG GYDAG ATODIAD HWYL YR HAF

# CANMOLIAETH UCHEL I'R YSGOL




*Prifathro'r Ysgol, Mr Hefin Jones*

"Mae Ysgol Tal-y-bont yn gymuned ofalgar, hapus a theuluol", dyna oedd barn Arolygwyr Estyn yn dilyn eu hymweliad â'r ysgol ar 25 Mehefin. Daeth tim o dri Arolygwr ac un Lleygwr i'r ysgol dros gyfnod o dridiau i arsylwi a chofnodi eu canfyddiadau. Cyhoeddwyd eu hadroddiad ddiwedd Awst a dyma ddyfynnu ran ohono.

" Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol a chyfeillgar ble mae disgyblion yn ymddwyn yn barchus ac yn gwrtais. Mae'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn".

"Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â rhieni a'r gymuned ehangach. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn gallu sgwrsio ag unrhyw aelod o staff er mwyn trafod llês ac addysg eu plant".

"Mae bron bob disgybl yn dangos balchder at fod yn aelod o deulu clòs yr ysgol ac maent yn mwynhau'r profiadau cyfoethog sydd yn eu cefnogi i ddysgu. Un o gryfderau'r ddarpariaeth yw'r modd mae disgyblion yn dangos parch a chwrteisi at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hymddygiad ar bob achlysur ac yn ymwybodol o ddisgwyliadau uchel oedolion".

"Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n datblygu dealltwriaeth gadarn disgyblion o'u hardal leol, hunaniaeth a diwylliant Cymru . Mae staff yn cynllunio cwricwlwm sy'n darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn amryw brofiadau diddorol ac ysgogol. Mae hyn yn cynnwys datblygu eu dealltwriaeth o faterion cyfoes byd eang".

Dywedodd y Pennaeth ei fod yn hapus iawn gyda'r canfyddiadau:

"Mae'r adroddiad yn adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad y staff ac yn tynnu sylw at y cydweithio rhwng yr ysgol a'r rieni a'r llywodraethwyr. Mae agweddau o les y plant yn nodwedd amlwg ac yn rhywbeth y gallwn ni gyd ymfalchïo ynddo".

Mewn ymateb i'r adroddiad cadarnhaol meddai Bethan Davies, Cadeirydd y Llywodraethwyr : "Yn dilyn adroddiad Estyn hoffwn longyfarch y Prifathro, athrawon, yr holl staff a phlant yr ysgol ar

*Parhad ar dud 4*




## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Casglu'r Papur:**
Gwenllian ac Arvid Parry-Jones

**Dosbarthwyr:**
Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr @papurpawb


### GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Fal a Gwyn, gyda Sion yn dylunio. Diolch iddynt.

Golygyddion rhifyn Hydref fydd Delyth a Bleddyn (huws.henllan@btinternet.com).

Y dyddiad cau yw 4 Hydref a bydd y papur ar werth ar 11 Hydref.

### LLYTHYR I'R PAPUR

Annwyl Olygyddion,

Diolch o galon i bawb a drefnodd y parti ardderchog i ddathlu hanner canrif Papur Pawb. Roedd yn achlysur pentrefol pleserus iawn a tasen i ddim yn siaradwr cyhoeddus mor anobeithiol, basen i wedi cymryd y cyfle i ychwanegu gair neu ddau ar y pryd. Yn lle hynny, ga i wneud hynny fan hyn.

Yn gyntaf, doedd dim disgwyl i Gwilym Huws, golygydd cyntaf y papur, dynnu sylw at ei rôl allweddol ei hun. Oedd, roedd yna bedwar sylfaenydd, ond dilyn Gwilym wnaeth y gweddill ohonon ni, ei weledigaeth a'i frwdfrydedd a'i wybodaeth o'r maes, fel darlithydd yn y Coleg Llyfrgellwyr. Os oedd un person o gwbl yn gyfrifol am danio chwyldro'r papurau bro, Gwilym yw e.

Yn ail, ga i ddweud gair i gofio am y sylfaenydd absennol, sef Siôn Myrddin, a fu farw rai blynyddoedd yn ôl. Roedd e hefyd yn un oedd yn byrlymu o syniadau. Fel "John Piper", gadawodd yr ysgol yn bymtheg oed i fynd i'r môr ac wedi cyfnod hir yn Lloegr, cafodd droedigaeth at Gymreictod. Dychwelodd i Gymru i weithio ym myd y theatr ac â mentrau amrywiol gan gynnwys Bistro'r Dewin, a sefydlodd yn

Aberyswyth gyda Dilys, ei wraig.

Yn 1974, sef blwyddyn sefydlu'r papur, roedd yn gweithio fel un o ysgrifenyddion Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Fel rhan o'u hymgyrch yn erbyn tai haf, fe dreuliodd naw mis, gyda Dilys a'r plant, yn byw yn anghyfreithlon yn Nhanybwlch, Bontgoch.

Roedd hon yn weithred arbennig o ddewr, ac yn nodweddiadol o ysbryd heriol Siôn.

Coffa da amdano – bachan diddorol – ac am y cyfnod diddorol roedden ni mor lwcus â byw ynddo.

Robat Gruffudd

# DYDDIADUR

### MEDI

14 Te prynhawn yng Nghartref Tregerddan 2.30

15 Bethel 10 Uno â Seion, Huw Roderick
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

18 Bore Coffi 10.30–12 Neuadd Llanfach
Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch 7.30 Gwaelod y Neuadd (Ioan Lord)

19 Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 7 Gweddi Hwyrol

22 Bethel 10 Geraint Evans
Rehoboth 11.15 Beti Griffiths
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

27 Sesiwn Nos Wener 8yh, Y Llew Gwyn (Tacla, band jazz Cymraeg)

29 Bethel 10 Uno â Seion, Geraint Tudur
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Diwrnod afalau Cletwr 12–3: gwasgu afalau, coed ffrwythau ar werth, a chyngor ar gael

### HYDREF

6 Bethel 10 Uno â Seion, Judith Morris
Bethesda, Tynant 2 Richard Lewis
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid

8 Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth 2 'Syr David James, Pantyfedwen' (Richard Morgan)

### BOB WYTHNOS

Cletwr Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

### DIOLCH

Mae Cymdeithas Papur Pawb yn ddiolchgar iawn i Hefin a Rita Llwyd am eu rhodd ariannol hael i goffrau'r Papur.

### CLWB CANT NEUADD LLANFACH

Enillwyr mis Gorffennaf:

1. Sian Stacey (Rhif 94)
2. Mari Wyn Davies (Rhif 16)
3. Carys Briddon (Rhif 25)

Enillwyr mis Awst:

1. S. M. Lewis (Rhif 36)
2. Mike Walsh (Rhif 105)
3. Gwyneth Williams (Rhif 61)


**Jazz Sipsi Cymraeg!**

*Sesiwn Nos Wener*
**TACLA**
8 o'r gloch, Y Llew Gwyn
nos Wener, 27 Medi / £8




### R S Thomas Gwyl Lenyddol a Gweithdy Barddoniaeth 20–22 Medi 2024

Taith Dywys yn dilyn ôl-traed R S Thomas gyda David Billingsley, Nicola Roberts a Richard Suggett

Siaradwyr: Dr James January-McCann, Yr Athro Matthew Jarvis, Yr Athro Jason Walford Davies ,Y Gwir Barchedig Dorrien Davies

Gweithdy Barddoniaeth – Richard Evans

Manylion ar gyfer y gwahanol ddigwyddiadau ar gael oddi wrth:
Alison Swanson: 01654 781322
e-bost: *alisonswanson7@icloud.com*
Delyth Griffiths: 01654 781306 e-bost: *delyth505@gmail.com*

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Esther Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont sydd newydd gymhwyso fel Cyfreithwraig a phob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd

## Ymddeol

Pob dymuniad da i Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont ar ei ymddeoliad o'r byd addysg. Gobeithio y caiff ddigon o amser yn awr i farddoni a physgota!

## Damwain Car

Ddiwedd Mehefin bu Janet a Stephen Evans, Cefngweiriog mewn damwain ffordd gas a bu raid i Janet dreulio peth amser yn Ysbyty Bronglais. Da deall bod y ddau yn gwella o'u hanafiadau.

## Arddangosfa ( LLUN )

Ym mis Mehefin, cynhaliwyd arddangosfa diwedd blwyddyn myfyrwyr Celf a Dylunio Coleg Ceredigion ac yn yr arddangosfa roedd gwaith Iryna Kolpakova, The Old Coach House, Tal-y-bont. Ysbrydolwyd ei gwaith gan frodwaith pwythau croes sydd yn arbennig i Wcrain, ac roedd yn werth ei weld. Dymuniad Iryna oedd rhannu diwylliant a thraddodiad ei gwlad er mwyn dangos Wcrain fel lle heddychlon gyda diwylliant unigryw. Llongyfarchwn hi am ei gwaith ac am ennill anrhydedd ar ddiwedd ei blwyddyn gyntaf.

## Cyfansoddi

Braf unwaith eto ym Mhapur Pawb yw gallu llongyfarch Niamh O'Donnell, Maesnant, Tal-y-bont sydd wedi ennill gwobr arall am gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer cerddorfa. Dyfarnwyd gwobr Paul Mealor iddi gan Urdd Cerddoriaeth Cymraeg ym mis Mehefin. Yna, yng Ngorffennaf, yn Theatr Ffilm Glasgow, dangoswyd ffilm newydd gyda chefndir cerddorol o waith Niamh. Dewisiwyd ei gwaith hi hefyd i'w berfformio gan Gerddorfa Ieuenctid Cymru yn eu cyngherddau haf eleni. Ac fel petai hyn i gyd ddim yn ddigon, bydd ei darn 'Hear me, See Me' yn cael ei berfformio mewn gwyl gerdd ym Mrasil ym mis Tachwedd!

**Cylch Meithrin Tal-y-bont**

15 Medi, 10 – 1.00

Sel Cist Car

£10 y car

Iard Ysgol Tal-y-bont

# Pobl a Phethe



*Ar 13eg o Orffennaf priodwyd Carys Howard, Brynfa, Tal-y-bont â Daniel James, Caerfyrddin yng Ngwesty Mansion House, Llansteffan. Yn dilyn y briodas cafwyd mis mêl ar fordaith o amgylch y Canoldir gan ymweld â'r Eidal, Ffrainc a Sbaen.*
*Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt.*

## Newid Aelwyd

Pob dymuniad da i Jonathan Fry sydd wedi symund o'r Bryn i fyw i Aberystwyth.

Gobeithio y bydd Ellen ac Alffi bach yn hapus iawn yn eu cartref newydd Y Bryn. Y mae Alffi eisioes wedi cychwyn yn y Cylch Meithrin. Bydd yn braf bod yn agos i'r teulu.

Dymunwn yn dda i Maureen Jenkins gynt o Aberceulan sydd wedi symud i'r Alban er mwyn bod yn agos at ei theulu.

## Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Doedd dim cyfarfod o'r Cyngor ym mis Awst ond hoffai'r Cynghorwyr longyfarch y Cynghorydd Michelle James, ar enedigaeth Cadi Haf Canter ar y 14 Awst. Llongyfarchiadau hefyd i bartner Michelle, Jason Canter ac i'r chwaer fawr Mali - sydd wedi dwli ar ei chwaer fach!

## Talwrn y Beirdd

Recordiwyd rowndiau terfynol cyfres 2024 Y Talwrn yn y Neuadd Goffa ar 16 Gorffennaf. Ceri Wyn Jones oedd y Meuryn a Dwynwen Morgan, Alltgoch gynt, oedd yn cynhyrchu. Yn y gornestau, ac wedi cystadlu brwd, fe lwyddodd tîmau Dros yr Aber a Tir Iarll i fynd ymlaen i'r rownd derfynol a gynhaliwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

## Treftadaeth Llangynfelyn

Yn anffodus, nid ydym wedi gallu trefnu rhaglen o sgyrsiau ar gyfer eleni a fyddai fel arfer wedi dechrau ym mis Medi. Os bydd amser yn caniatáu efallai y byddwn yn gallu cynnig rhaglen fer yn dechrau ym mis Ionawr.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn gyda nifer o drigolion yr ardal sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y misoedd diwethaf. Collodd Elaine Rowlands, Maesyfelin, Tal-y-bont ei brawd Keith Owen a bu farw brawd Liz Hughes, 4 Stryd Birkenhead, Tal-y-bont, oedd yn byw yn Nolgellau.

Bu dwy golled yng nghartref Sue a David Jones Hughes, Maesyderi, Tal-y-bont gan i Sue golli ei mam a bu farw tad David hefyd. Bu farw mam yng nghyfraith Wendy Watkin, Heulfor, Pentrebach sef Primrose Watkin a chollodd Reg Jones, Eurfan, Tal-y-bont ei chwaer Laura. Anfonwn ein cofion hefyd at deulu a ffrindiau y diweddar Sally Howard, gynt o Faesyderi, Tal-y-bont.

Yn dawel yn ei chartref Fferm Ynyshir, Eglwysfach, ar 10 Awst, bu farw Eirlys Jones yn 85 oed, priod y diweddar Lewis, yn fam, nain a hen nain. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus iddi yn Amlosgfa Aberystwyth ar 28 Awst.

## Penblwydd

Cyfarchion i Mrs Joan Dare, Bwlchrosser, sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar 6 Medi.

Pen blwydd hapus hefyd i Pam Byrne, Tre'r Ddol a ddathlodd ei phenblwydd yn 80 oed ddechrau Medi.

## Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Einion a Tirion Williams, 1 Tanygraig, Tal-y-bont ar enedigaeth eu mab bach William Gruffydd. Mae'n siwr fod Mamgu a Dadcu, Alun a Ceris Williams, Penrhos, wedi gwirioni gyda'r un bach.

Ganwyd merch fach o'r enw Ottilie Raen Hart i Liana Evans ac Orian Hart, 1 Tanycoed, Tal-y-bont.

Dymuniadau gorau i'r ddau deulu bach.

## Yn Gwella

Braf clywed bod Paul Kelly, Maesyderi, Tal-y-bont wedi cael dychwelyd adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Gobeithio fod Menna Morgan, Dôl Pistyll, Tal-y-bont ac Eirlys Huws, Bontgoch hefyd yn teimlo'n well erbyn hyn.

## Sioe Môn

Llongyfarchiadau i Ela a Hari Williams, Maesyderi, ar eu llwyddiant yn Sioe Môn ym mis Awst.



# Ysgol Tal-y-bont

## Gweithgareddau Diwedd Blwyddyn

### Gwibdeithiau

Roedd hi'n hyfryd gallu mynd ar wibdaith yn ystod wythnos olaf y tymor fel gwobr i'r plant am flwyddyn arbennig o waith. Eleni aeth y plant hynaf i Ganolfan Hamdden Bro Ddyfi a mwynhau cyfle arbennig i ddefnyddio'r pwll nofio ac ar ôl cinio aeth pawb i Sinema Libanus yn Borth. Aeth y plant ieuengaf i Fferm Ffantasi yn Llanrhystud a chael amser wrth eu boddau'n bwydo'r anifeiliaid a mynd ar daith o gwmpas y caeau. Diolch yn fawr i bawb am y croeso a diolch o galon i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am y nawdd hael i'r gwibdeithiau – rydym yn ffodus iawn o'r pawb wedi mwynhau.

### Ysgol Iach

Yn ystod wythnosau diwethaf Tymor yr Haf cynhaliwyd ein mabolgampau ysgol gyda chymorth Dominic Jenkins eleni eto i ddechrau'r rasys. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm am eu hymdrechion arbennig yn ystod y prynhawn a da iawn Leri am fod yn enillwyr teilwng eleni eto. Diolch yn fawr i'r capteiniaid am ein helpu gyda'r paratoadau. Llongyfarchiadau mawr i'r holl enillwyr. Diolch yn fawr i bawb ddaeth i'n cefnogi. Yn dilyn hynny cafwyd diwrnod gwych o gystadlu yn erbyn ysgolion cylch Aberystwyth ar Gaeau Ysgol Penweddig. Da iawn i'r tîm am ymdrech 100%, doedd dim rhyfedd fod pawb wedi blino'n lân erbyn y diwedd.

### Ysgol Greadigol

Cynhaliwyd prynhawn arbennig yn yr ysgol er mwyn rhoi llwyfan i holl ddisgyblion yr ysgol gael cyfle i berfformio a dangos eu doniau i weddill yr ysgol. Cafwyd nifer o eitemau graenus a rhai gwahanol iawn gan y plant. Yn ogystal â chanu unawdau a deuawdau, cafwyd sawl eitem offerynnol hefyd gan gynnwys, piano, cornet a recorder. Roedd yn atgyfnerthu ein barn bod llawer o dalent ymysg y plant a bod hi'n braf gallu manteisio ar gyfleoedd i roi llwyfan iddynt ddangos eu doniau. Diolch o galon i chi gyda am roi cyngerdd gwerth chweil i ni. A chafwyd cyngerdd gwych arall yng Nghanolfan y Celfyddydau cyn diwedd y tymor hefyd pan aeth plant o Ysgol Tal-y-bont i ymuno gyda disgyblion eraill o ysgolion Ceredigion i fod y rhan o'r Proms blynyddol. Roedd tua 100 o blant yn y gerddorfa a tua 350 yn y côr! Diolch i Wasanaeth Cerdd Ceredigion am drefnu'r profiad arbennig eto eleni.

### Ysgol y Gymuned

Cynhaliwyd ein barbeciw blynyddol, gyda phlant Blwyddyn 6 yn serennu wrth gynnal cyngerdd hyfryd yn neuadd yr ysgol eleni eto. Diolch yn fawr i chi am eich cyfraniad i'r ysgol dros y blynyddoedd a phob hwyl i chi yn yr ysgolion uwchradd. Cofiwch alw draw i'n gweld yn fuan. Diolch i bawb am gefnogi ac yn enwedig i aelodau o'r Gymdeithas Rieni am yr holl waith paratoi a Mrs Jones y gegin (a Mrs James wrth gwrs!) ac i'r staff i gyd am bob cymorth ar y noson hefyd.

### Gwersyll yr Urdd Caerdydd

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yw cael ymweld ag un o wersylloedd yr Urdd. Oherwydd effeithiau Covid-19, ni fu'n bosib ymweld â Gwersyll Caerdydd ers sawl blwyddyn, felly roedd cryn dipyn o edrych ymlaen eleni fel y gallwch ddychmygu! Fel rhan o drefniadau Pont yr Wylfa, aethom gyda disgyblion Ysgol Craig yr Wylfa ac roeddem yn rhannu bws gyda disgyblion Ysgol Rhydypennau hefyd. Cafodd pawb lawer o hwyl gan fwynhau amrywiaeth o weithgareddau fel dal cwch o'r Bae i ganol y ddinas ac ymweld â Techniquest. Roedd cael ymweld â'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan a'r Amgueddfa Lofaol 'Big Pit' ym Mlaenafon yn brofiadau arbennig. Cawsom gyfle hefyd i gwrdd gydag Elin Jones Aelod Seneddol Ceredigion a Llywydd y Senedd. Diolch yn fawr iawn i'r staff am drefnu'r trip ac i staff y Gwersyll am ofalu amdanom. Rwy'n siŵr y bydd gan bawb lawer o atgofion melys am yr ymweliad.

### Clwb ar ôl Ysgol

Mae'r Clwb ar ôl Ysgol yn cynnig lle diogel i ofalu am blant tan 5.30 bob nos Fercher a nos Iau. Diolch yn fawr i Miss Eirian a Miss Kate am drefnu'r gweithgareddau amrywiol ar gyfer y plant.

---

*Parhad o dud 1*

eu gwaith caled a chyson yn yr ysgol. Diolch enfawr i'r holl rieni, llywodraethwyr a chyfeillion yr ysgol am eu cefnogaeth di-flino. Da iawn bawb".

Dyma hefyd ymateb Lynwen Morgan, Cadeirydd Pwyllgor Rhieni ac Athrawon yr ysgol: "Rhaid llongyfarch staff a ffrindiau yr ysgol gyfan ar adroddiad arbennig o dda. Rydym mor lwcus i gael ysgol lwyddiannus fel hon ynghanol y pentref. Mae'r frawddeg agoriadol yn dweud y cyfan, "Mae Ysgol Tal-y-bont yn gymuned ofalgar, hapus a theuluol". Pa well disgrifiad sydd ei angen ar unrhyw ddarpar riant neu riant presennol ei ddarllen? Ar ran CRHA hoffwn ddiolch o waelod calon i holl Staff yr ysgol, rhieni, ffrindiau a'r llywodraethwyr am eu holl waith caled ar hyd y flwyddyn"

Dymuna Papur Pawb ymuno hefyd yn y llongyfarchiadau, gan ddymuno hir oes i Ysgol Tal-y-bont!



*Mwynhau Fferm Ffoli*




*Enillwyr Mabolgampau'r Ysgol*



*Mwynhau pic-nic ym Mabolgamau'r Cylch*





*Prynhawn Perfformio (Uchod, chwith a de)*



*Ymweliad Caerdydd (Chwith)*

# Sioe Tal-y-bont 2024

Er y tywydd anffafriol yn y bore ar ddiwrnod y sioe, daeth yr haul braf allan ddechrau'r prynhawn i ddenu nifer dda i'r cae i fwynhau a gwerthfawrogi sioe arbennig arall diolch i waith caled y pwyllgor a'r holl wirfoddolwyr.

Llywydd Sioe Tal-y-bont eleni oedd Janet Jones, Llwynglas. Y mae ei chysylltiad a'i chyfraniad hi i'r sioe yn mynd yn ôl yn bell pan ofynnodd Bob Williams, y Cadeirydd ar y pryd, iddi stiwardio adran y defaid ble y bu am 15 mlynedd! Yna yn 1998 wedi cyfnod byr fel Is-Gadeirydd daeth yn Ysgrifennydd Pwyllgor y Sioe am flynyddoedd yn ddi-dor. Erbyn hyn , Mair Nutting yw'r Ysgrifennydd ond y mae Janet yn dal i ofalu am gofnodion cyfarfodydd y pwyllgor. Does ryfedd felly fod Janet wedi cael yr anrhydedd o fod yn Llywydd y sioe eleni.

## Y Canlyniadau

### CEFFYLAU

**ADRAN Y 'COB CYMREIG'**
Beirniad: Aled S True, Pencoed, Nantycaws

**COBIAU CYMREIG (ADRAN D)**
**1: Caseg ac ebol(es) wrth droed**
1. Nicola Bennett, Erwlas, Bontgoch
**2: Ebol(es)**
1. Nicola Bennett
**3: Caseg Hesb neu Geffyl, 4 blwydd oed neu hŷn**
2. Pippa Wells, Hen Ysgol, Taliesin
**7: Cob Cymreig Adran D yn cael ei ddangos o dan gyfrwy**
1. Megan Williams, Hen Ysgol, Taliesin

**CIL-WOBR ARDDANGOSYN GORAU YN YR ADRAN**
Megan Williams

**ADRAN COBIAU CYMREIG (ADRAN C)**
Beirniad: Aled S True, Pencoed, Nantycaws
**17: Caseg Hesb neu Geffyl, 4 blwydd oed neu hŷn**
2. Megan Williams

**CEFFYLAU MERLOTA**
Beirniad: Jennifer Dart, Penrallt Newydd, Bryngwran
**29: Ceffyl Merlota Gorau 138cm ac yn is. I'w farchogaeth.**
1. Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll, Tal-y-bont
2. Alaw Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont
**30: Ceffyl Merlota Gorau dros 138cm ac yn is. I'w farchogaeth.**
1. Eleanor Lawson, Pantyffynnon, Bontgoch 2. Lisa Byrne 3. Pippa Wells

**CWPAN ARDDANGOSYN GORAU YN YR ADRAN**
Becca Fflur

**ADRAN MWYAF TRWSIADUS**
Beirniad: Jennifer Dart, Penrallt Newydd, Bryngwran
**31: Mwyaf trwsiadus. i'w arwain**
1. Becca Fflur 3. Lisa Byrne
**32: Mwyaf trwsiadus. I'w farchogaeth**
1. Pippa Wells 3. Becca Fleming-Jenkins

**ADRAN HELFARCH**
Beirniad: Jenna Dart, Penrallt Newydd, Bryngwran
**34: Caseg neu Geffyl Hela dros 158cm (dan gyfrwy)**
1. Pippa Wells

**ADRAN CLYBIAU MARCHOGAETH A MERLOD**
Beirniad: Jennifer Dart, Penrallt Newydd, Bryngwran
**37: Caseg neu Geffyl 4 blwydd oed a throsodd (plentyn 16 mlwydd oed ac iau)**
3. Alaw Morgan
**38: Caseg neu Geffyl 4 blwydd oed a throsodd (unigolyn 17 mlwydd oed neu hŷn)**
2. Eleanor Lawson
**39: Cystadleuaeth Gwisg Ffansi**
1. Alaw Morgan

**CEFFYLAU LLIW, PALOMINO A BRITH**
Beirniad: Jennifer Dart, Penrallt Newydd, Bryngwran
**40: 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau – i'w arwain**
3. Becca Fflur
**42: 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau – i'w farchogaeth**
1. Megan Williams 2. Becca Fflur

**CEFFYLAU FETERAN**
Beirniad: Jenna Dart, Penrallt Newydd, Bryngwran
**43: Caseg neu Geffyl 15 mlwydd oed neu hŷn – i'w arwain**
3. Mari Heulwen Evans, Glanaber, Tal-y-bont

**MERLOD MYNYDD A GWEUNDIR**
Beirniad: Jenna Dart, Penrallt Newydd, Bryngwran
**47: Bridiau Mynydd a Gweundir Mawr Cymysg sy'n cael eu marchogaeth**
1. Megan Williams

**RHOSGLWM ARDDANGOSYN GORAU YN YR ADRAN**
Megan Williams

**CEFFYLAU RHAN FRID CYMREIG**
Beirniad: Jenna Dart, Penrallt Newydd, Bryngwran
**48: 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau – i'w arwain**
1. Megan Williams 2. Mari Davies, Doleifion, Tre'r Ddôl
**50: Y March, Y Gaseg neu'r Ceffyl gorau, 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau – i'w farchogaeth**
1. Megan Williams

**CWPAN ARDDANGOSYN GORAU YN YR ADRAN**
Megan Williams

**CYSTADLEUAETH DANGOSYDD IFANC Y CEFFYLAU**
Beirniad: Jenna Dart, Penrallt Newydd, Bryngwran
**51: Dangosydd Ifanc gorau o dan 12 oed**
1. Mari Heulwen Evans
**GWREGYS** i'r cystadleuydd lleol gorau i ennill gwobr 1af ar ddiwrnod y sioe
Pippa Wells, Hen Ysgol, Taliesin
**CWPAN** y 'Western Mail' a **GWREGYS** er cof am Peter Manley i Bencampwr y Ceffylau.
Teulu Reed, Tyngwndwn, Nebo

### GWARTHEG

**DA DUON CYMREIG**
**65: Buwch gyflo neu buwch sydd yn llaetha a aned cyn 1.1.2021**
1. Teulu Tanrallt, Tal-y-bont 2. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Tal-y-bont
**66: Heffer gyflo neu heffer sydd yn llaetha a aned rhwng 1.1.2021 a 31.12.2021**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**67: Heffer a aned rhwng 1.1.2022 a 28.2.2023**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**68: Heffer a aned ar ôl 1.1.2023**
1. Teulu Tanrallt
**69: Llo a aned yn 2024**
1. Teulu Tanrallt 2. Dafydd Williams, Cwm Cae
**70: Pâr o Wartheg**
1. Teulu Tanrallt 2. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf

**PENCAMPWR YR ADRAN**
Teulu Tanrallt

**IS-BENCAMPWR YR ADRAN**
Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf

**BUWCH A LLO MEWN LLOC**
**Bwch Ddu Gymreig gyda'i llo pur neu groes (a aned yn 2024) wrth droed**
Dafydd Williams, Cwm Cae

**GWARTHEG HOLSTEIN Y DU**
Beirniad: Arwyn Wilson, 10 Park Hall, Caerfyrddin
**72: Heffer Holstein dan 12 mis oed ar ddiwrnod y Sioe**
2 a 3. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**73: Heffer gyflo Holstein**
2. G a R Watkin, Henllys, Dol-y-bont
**74: Buwch gyflo Holstein sych**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**75: Heffer Holstein sy'n llaetha**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
3. G a R Watkin
**76: Buwch Holstein sy'n llaetha**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
2 a 3. G a R Watkin
**77: Pâr o wartheg**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
3. G a R Watkin

**PENCAMPWR YR ADRAN**
Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf

**IS-BENCAMPWR YR ADRAN**
G a R Watkin

**CYSTADLEUAETH TYWYSYDD IFANC**
Beirniad: Arthur Morgan, Pencefen, Mwnt, Aberteifi
**78: Tywysydd ifanc o dan 12 mlwydd oed yn arwain llo**
1. Elinor Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
2. Leusa Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
3. Tomi Jac a Lowri Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf

**GWREGYS TYWYSYDD IFANC**
Elinor Jenkins

**TARIAN PENCAMPWR Y PENCAMPWYR GWARTHEG**
Beirniad: Arthur Morgan, Pencefen, Mwnt, Aberteifi
Teulu Tanrallt

### DEFAID

**DEFAID MYNYDD CYMREIG (ADRAN FYNYDD)**
Beirniad: Rhys Jones, Fferm Pentre, Llanelltyd
**85: Hwrdd, 2 flwydd oed ac yn hŷn**
1 a 2. Teulu Tyngraig, Tal-y-bont
**86: Hwrdd Blwydd**
1 a 2. Teulu Tyngraig 3. D Nutting, Tyhen Henllys
**87: Oen Hwrdd**
1, 2, 3. Teulu Tyngraig
**88: Dafad, 2 flwydd oed ac yn hŷn**
2. Teulu Tyngraig
**89: Dafad flwydd**
1. Teulu Tyngraig 2. Teulu Tanrallt
**90: Oen benyw**
1. Teulu Tanrallt
**91: Grŵp**
Teulu Tyngraig
**92: Pâr o hyrddod. Blwydd oed neu'n hŷn**
Teulu Tyngraig

**PENCAMPWR AC IS-BENCAMPWR**
Teulu Tyngraig

**HWRDD, OEN HWRDD, GRWP, PÂR O HYRDDOD GORAU**
Teulu Tyngraig

**DEFAID TORWEN**
Beirniad: Bethan Watkin, Blaenwaun, Borth
**99: Hwrdd**
3. Gruffudd Jones, Awel y Gors
**100: Oen Hwrdd**
3. Gruffudd Jones
**101: Dafad**
2. Gruffudd Jones
**103: Oen Benyw**
1, 3. Gruffudd Jones
**104: Grŵp**
2. Gruffudd Jones

**DEFAID BALWEN**
Beirniad: Bethan Watkin, Blaenwaun, Borth
**105: Hwrdd, unrhyw oed**
1. Teulu Pantcoch, Tal-y-bont
**106: Oen Hwrdd**
1, 2. Teulu Pantcoch
**107: Dafad/Ewe**
1, 2. Teulu Pantcoch
**108: Dafad flwydd**
1. Teulu Pantcoch
**109: Oen Benyw**
1, 2. Teulu Pantcoch
**110: Grŵp**
1. Teulu Pantcoch

**PENCAMPWR AC IS-BENCAMPWR**
Teulu Pantcoch

**UNRHYW FRID MYNYDD ARALL**
Beirniad: John Pugh, Gwernbere, Darowen
**118: Hwrdd**
2. Teulu Alltgoch
3. Ffion Jones, Berthlwyd
**119: Oen hwrdd**
2. Aled Hughes, Pencwm
**120: Dafad**
2. Teulu Alltgoch
**121: Dafad flwydd**

1. Teulu Alltgoch
**122: Oen benyw**
1. Teulu Alltgoch 2. Aled Hughes, Pencwm

### DEFAID JACOB
Beirniad: Emyr Lewis, Cefngraigwen, Llanddeiniol
**124: Hwrdd**
2. Huw Davies, Llety Ifan Hen, Bontgoch
**125: Oen hwrdd**
2. Huw Davies, Llety Ifan Hen
**126: Dafad**
2, 3. Huw Davies, Llety Ifan Hen
**127: Dafad flwydd**
2, 3. Huw Davies, Llety Ifan Hen
**128: Oen benyw**
2, 3. Huw Davies, Llety Ifan Hen

### DEFAID CHAROLLAIS
Beirniad: Arwel Owen, Garthbeibio, Foel
**137: Hwrdd**
1. Owain Evans, Ynyshir, Eglwysfach
3. Osian Jones, Awel y Gors
**139: Dafad**
2. Osian Jones 3. Owain Evans
**140: Oen benyw**
3. Osian Jones
**142: Grŵp**
1. Osian Jones

### DEFAID TEXEL
Beirniad: Emyr Lewis, Cefngraigwen, Llanddeiniol
**143: Hwrdd**
1. Ffion Jones, Berthlwyd
144: Oen hwrdd
2. Teulu Alltgoch
**145: Dafad**
2. Teulu Alltgoch

### DEFAID DORSET (MOEL A CHORNIOG)
Beirniad: Matt Gray, The Grange, Bromyard
**149: Hwrdd**
1, 2. Griffiths & Davies, Dolclettwr Hall, Taliesin
**150: Oen hwrdd**
2, 3. Griffiths & Davies
**151: Dafad Oedrannus**
1, 2. Griffiths & Davies
**152: Dafad Flwydd**
2, 3. Griffiths & Davies
**153: Oen Benyw**
2, 3. Griffiths & Davies
**154: Oen Benyw (heb ei thocio)**
1, 2. Griffiths & Davies
**155: Grŵp**
1. Griffiths & Davies

### IS-BENCAMPWR YR ADRAN
Griffiths & Davies

### DEFAID ZWARTBLES
Beirniad: Arfon Lloyd, Derwen Deg, Trefriw, Llanrwst
**156: Hwrdd**
2. Susan Rowlands, Erglodd

### DEFAID BELTEX
Beirniad: Arwel Owen, Garthbeibio, Foel
**162: Hwrdd**
2. Teulu Alltgoch
**164: Dafad**
1, 2. Teulu Alltgoch
**166: Oen Benyw**
2. Teulu Alltgoch
**167: Grŵp**
2. Teulu Alltgoch

### BRIDIAU PUR ERAILL
Beirniad: Arfon Lloyd, Derwen Deg, Trefriw, Llanrwst
**168: Hwrdd**
2. Ffion Jones
**171: Dafad Flwydd**
2. Tomos Jones, Awel y Gors
**172: Oen Benyw**
3. Elsi Iago, Pantcoch

### WYN TEWION
Beirniad: Richard Tudor, Glanystwyth, Llanilar
**180: Pâr o ŵyn i'r cigydd, heb eu tocio (yn pwyso llai na 32kg yn fyw)**
1. Teulu Alltgoch
2, 3. Huw Davies
**181: Pâr o ŵyn i'r cigydd, heb eu tocio (yn pwyso 32kg neu fwy yn fyw)**
1. Teulu Evans, Glanaber, Tal-y-bont
2. Teulu Alltgoch
3. Owain Evans, Ynyshir
**182: Pâr o ŵyn i'r cigydd, o unrhyw Frîd Mynydd Pur**
1. Aled Hughes, Pencwm 2. Teulu Tyngraig 3. Teulu Alltgoch
**Rhosglwm: pâr o ŵyn gorau**
Teulu Evans, Glanaber
**Rhosglwm: pâr o ŵyn mynydd gorau**
Aled Hughes, Pencwm

### TYWYSYDD IFANC Y DEFAID
Beirniad: Richard Tudor, Glanystwyth, Llanilar
**184: Tywysydd gorau o dan 12 oed**
1. Ela Williams, Maes-y-deri
2. Osian Jones, Awel y Gors
3. Mari Heulwen Evans, Glanaber
**185: Tywysydd gorau rhwng 12 a 16 oed**
2. Harri Williams, Maes-y-deri,
**186: Tywysydd gorau o dan 12 oed, unrhyw oen swci**
1. Elsi Iago
=3. Ieuan Evans, Glanaber, Tal-y-bont
=3. Mari James, Cerrig Cyranau Isaf, Tal-y-bont
**GWREGYS**: enillydd Dosbarth 184 - Ela Williams
**TROFFI**: enillydd Dosbarth 186 - Elsi Iago

### CYSTADLEUAETH Y LLYWYDD
Beirniaid: Janet Jones, Llwynglas, Tal-y-bont
Teulu Tanrallt

## CNEIFIO
**187. Cneifiwr gorau gyda pheiriant**
2. Rhydian Evans, Glanaber, Tal-y-bont 3. Enoc Jenkins, Penbryn, Taliesin
**188. Cneifiwr gorau gyda pheiriant yn gyfyngedig i aelodau CFfI**
1. Bedwyr Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont 2. Ynyr Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont
**189. Cneifiwr gorau gyda pheiriant o dan 18 oed**
1. Ynyr Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont

## Y BABELL

### GWREIDDIAU A GRONYNNAU
**Yr ardd flodau orau**
1. Anthony Holt, Glasgoed, Tal-y-bont 2. Nicola Myring-Thomas, Tal-y-bont
**Yr ardd lysiau orau**
1. Marc Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont 2. Claire Fowler, Tal-y-bont 3. Jo Chalmers, Pentrebach
**Cae wedi ei ail-hadu yn 2022 neu 2023**
1. Huw Davies, Llety Ifan Hen, Bontgoch 2. Teulu Evans, Tynant, Tal-y-bont 3. Huw Davies, Llety Ifan Hen
**Cae o swej, rep neud faip**
1. Huw Davies, Llety Ifan Hen
2.Teulu Evans, Tynant 3. Huw Davies, Llety Ifan Hen
**Ffens o 100m neu fwy wedi ei chodi yn y flwyddyn diwethaf**
1. a 2. Teulu Jenkins, Tanrallt 3. Huw Davies
**Yr ardd orau ar gyfer bywyd gwyllt**
1. Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach 2. Marc Richards 3. Nicola Myring-Thomas
**Yr ysgallyn hiraf**
1. Mostyn Lloyd-Williams, Bontgoch
2. Cath Lloyd-Williams, Bontgoch
**Belen o Wair Dôl**
1. a 2. Teulu Tanrallt
3. Teulu Alltgoch
**Tywarchen Orau o Borfa Sefydlog**
1. Teulu Tanrallt

### MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN
Teulu Jenkins, Tanrallt

### CYNNYRCH GARDD
**3 Winwnsyn (Hadau)**
1. a 2. Anthony Holt 3. David Jones, Tal-y-bont
**3 Cenhinen**
2. Anthony Holt
**Llysieuyn di-siâp**
1. a 2. Anthony Holt
3. Nick Bryan, Tal-y-bont
**4 Taten Lliw**
2. Elfed Jones, Berthlwyd
**3 Betys Crwn**
3. David Jones, Tal-y-bont
**4 Coeden Ffa Dringo**
3. Jenny Fothergill, Tal-y-bont
**4 Coden Bys**
3. Jo Chalmers, Pentrebach
**4 Tomato**
2. Sara Reisz, Tal-y-bont
**1 Sypyn o Domatos**
2. David Jones, Tal-y-bont
**2 Ciwcymbr**
1. David Jones, Tal-y-bont
**6 Tomato Ceirios**
1. a 3. Sara Reisz 2. Marc Richards
**4 Ffa Ffrengig**
2. a 3. Elfed Jones
**4 Coden o Ffa**
1. a 2.David Jones
**3 Coesyn Riwbob**
1. Anthony Holt 2. a 3.Elfed Jones
**3 Corbwmpen**
1. Sara Reisz

### LLEOL
**Casgliad o 4 Perlysiau**
1. Cath Lloyd-Williams 2. Helen Hicks, Llangynfelyn 3. Catrin M S Davies, Tal-y-bont
**3 Corbwmpen**
3. Claire Fowler, Tal-y-bont
**4 Taten**
1. Catrin M S Davies 2. Elfed Jones 3. Jo Chalmers
**3 Coesyn Riwbob**
1. Anthony Holt
**2 Ciwcymbr**
1. Sara Reisz 2. Jo Chalmers
**4 Ffa Dringo**
1. a 2. Elfed Jones 3. Anthony Holt
**Casgliad o lysiau ar hambwrdd**
1. Claire Fowler 2. Helen Hicks

### ARDDANGOSFA ORAU
David Jones

### FFRWYTHAU
**3 Afal Bwyta**
1. Rebecca Williams, Tal-y-bont
**3 Afal Coginio**
1. Anthony Holt 2. Rebecca Williams 3. Elfed Jones
**3 Peren Fwyta**
1. a 2. David Jones
**3 Eirinen**
1. Marc Richards
**6 Eirinen Ddu**
1. a 2.Sara Reisz, Tal-y-bont 3. Deborah Salmi, Ynyslas

### ARDDANGOSFA ORAU
Anthony Holt

## BLODAU
**4 Dahlia Collarette neu betal sengl**
1. Nia Richards, Rhiwlan
**4 Pysen Bêr**
1. Eleri Phillips, Tal-y-bont 2. Sarah Reisz
**Cactws mewn Pot**
1. Lynda Warren, Eglwys Fach 2. a 3. Ffion Nelmes, Tre'r Ddôl
**Suddlon mewn Pot**
1. a 2.Sara Reisz 3. Barry Thomas, Eglwysfach 3. Marc Richards
**Planhigyn Dail y Tŷ mewn Pot**
1. a 2. Sarah Reisz 3. Lynda Warren
**Planhigyn Tŷ yn ei Flodau mewn Pot**
2. a 3. Sara Reisz
**Begonia mewn Pot**
1. a 2. Sarah Reisz
**Ffiwsia yn ei flodau mewn Pot**
1. a 3. Sara Reisz
**Gardd Fach ar Blât - Plant o dan 14 mlwydd oed**
2. Edith Heron, Tre Taliesin 2. Erin Aubrey, Tal-y-bont 3. Mostyn Lloyd-Williams, Bontgoch 3. Cadi Lloyd-Williams, Bontgoch
**Casgliad o Flodau Gwyllt. Plant dan 14 mlwydd oed**
2. Caio Lewis, Tal-y-bont 3. Erin Aubrey 3. Cadi Lloyd-Williams
**Blodyn Twll Botwm Gorau**
3. Cath Lloyd-Williams

### ARDDANGOSFA ORAU
Sara Reisz

### MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN
Sara Reisz

### MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN (LLEOL)
Sara Reisz

### GOSOD BLODAU
**Mewn Cragen / In a shell (miniature)**
3. Cath Lloyd Williams
**Hiraeth/Nostalgia**
2. Jane Bailey, Bontgoch
**'Syrpreis, Sypreis' - trefniant o dan amodau**
1. Helen Jones, Tal-y-bont 2. Alun Hughes, Tal-y-bont 3. Lois Jones, Tal-y-bont 3. Jenny Fothergill

## COGINIO
**Cacen Ffrwythau**
2. Claire Fowler
**Sbwng Fictoria**
2. Dylan Jones, Llwynglas
**Cacen Lemwn**
2. Marc Richards 3. Sara Lewis, Tal-y-bont
**Cacen Foron**
2. Elinor Jenkins, Wileirog 3. Nia Richards
**Sbwng Siocled**
2. Ceri Jones, Llwynglas 3. Ffion Jones, Tal-y-bont
**Bara Brith – heb furum**
2. Nia Richards
**Torth Cartref – Tin Hirsgwar**
2. Elfed Jones
**4 Sgon**
2. Frances Foster, Tal-y-bont
**6 Pice ar y Maen**
1. Nia Richards 2. Ceri Jones
**Pedair eitem yn defnyddio lemwn**
1. Jane Bailey

*Parhad ar dud. 8*

**4 Myffin Sawrus**
1. Jane Bailey 3. Jo Chalmers
**Fy Hoff Gacen gyda rysait**
1. Nia Richards
**Tarten Ffrwythau**
2. Elfed Jones
**4 Fflapjacs**
1. a 2. Ceri Jones 3. Helen Ovens, Tre Taliesin
**Cacen Ffrwythau (Cystadleuaeth i wrywod yn unig)**
1. Mick Fothergill, Tal-y-bont 2. a 3.Marc Richards

**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN**
Nia Richards a Ceri Jones

**CYFFEITHIAU**
**Jar o Jam Ffrwythau Meddal**
2. Helen Hicks
**Jar o Jeli Ffrwythau**
2. Helen Hicks
**Jar o Geuled Lemwn**
3. Claire Fowler
**Jar o Siytni Afal**
3. Nia Richards
**Jar o Gyffaith Anarferol**
3. Jo Chalmers
**Potel o Gordial**
1. Jenny Fothergill 2. Sue Peterson, Tal-y-bont 3. Jo Chalmers
**Potel o Win Coch Sych**
3. Mike Bailey, Bontgoch
**Potel o Wirod Ffrwythau**
1. Gwen Billingham, d/o Tal-y-bont 2. Jill South, Tre Taliesin 3. Jane Bailey

**ARDDANGOSFA ORAU YN ADRAN Y GWINOEDD**
Gwen Billingham d/o Tal-y-bont

**CYNNYRCH LLAETHDY**
**4 ŵy Hwyaden**
1. Seren Jenkins, Llangynfelyn 2. a 3. Helen Hicks

**MÊL**
**2 Jar pwys o Fêl Canolig 3. Helen Ovens**
**Crib o fêl bas sy'n addas i'w dynnu allan**
1. Ann Ovens, Tal-y-bont 2. Helen Ovens

**ARDDANGOSFA ORAU YN ADRAN Y MÊL**
Ann Ovens

**GWAITH LLAW**
**Unrhyw Eitem mewn Pwyth Croes**
1. Ffion Hicks, Llangynfelyn
**Clustog**
3. Myfanwy James, Tal-y-bont
**Clustog**
2. Myfanwy James
**Rhodd I Faban**
3. Claire Drakeley
**Dilledyn wedi ei weu â Llaw**
1. Helen Ovens 3. Myfanwy James
**Unrhyw Eitem wedi ei Grosio**
2. Kerrie Farrar, Tal-y-bont
**Unrhyw eitem yn defnyddio ffelt**
3. Helen Miles, Tal-y-bont
**Unrhyw eitem yn defnyddio crefft papur**
3. Jane Pugh, Tre'r Ddôl
**Gwahoddiad i briodas ac amlen**
**Bag - unrhyw gyfrwng**
1. Claire Fowler 3. Eleri Phillips

**CREFFT**
**Eitem o grochenwaith**
3. Jill South
**Bocs Adar**
1. Miri Lois Jones, Tre Taliesin 2. Heti Fflur Jones, Tre Taliesin
**Paentiad - unrhyw gyfrwng**
2. Alan Tansey, Tal-y-bont

**FFOTOGRAFFIAETH**
**Amaeth**
2. Catrin M S Davies, Tal-y-bont 3. Magw Ifan, Tal-y-bont
**Ar lan y môr**
1. Jini John, Tal-y-bont 2. Alun Elidyr, Tal-y-bont 3. Jo Chalmers
**Dathliad**
1. Catrin M S Davies 2. Rhian Nelmes
**Lliw**
1. Siwan Haf Evans, Tal-y-bont 3. Sianco John, Tal-y-bont
**Cyfyngedig i blant ysgolion cynradd – Fy Hoff Beth**
1. Elsi Iago, Tal-y-bont 2. Magw Ifan, Tal-y-bont
**Adeiladau**
1. Rhian Nelmes
**Golau**
1. a 2. Rebecca Williams 3. Rhian Nelmes

**ARDDANGOSFA ORAU YN YR ADRAN FFOTOGRAFFIAETH**
Rebecca Williams

**PLANT YSGOL GYNRADD TAL-Y-BONT**
**Dosbarth Meithrin: Ar y Fferm**
1. Seren Jenkins 2. Ela Pugh 3. Casper
**Dosbarth Derbyn: Papur Pawb**
1. Magw Ifan 2. Steffan Davies 3.Elis Doyle
**Blwyddyn 1 a 2 :Papur Pawb**
1. Erika Cartwright 2. Katri Salmi 3. Lola Morgan ac Erin Aubrey
**Blynyddoedd 3 a 4: Papur Pawb**
1. Daniel Morgan 2. Cai Jacob Dafis 3. Ela Lewis
**Blynyddoedd 5 a 6: Papur Pawb**
1. Willow Edwards 2. Blythe Hiscox 3. Osian January McCann

**PLANT YSGOL GYNRADD AGORED**
**Dosbarth Meithrin: Paentiad o bilipala**
1. Nela Haf, Tal-y-bont 2. Lowri Jenkins, Borth
**Dosbarth Derbyn: Elfed yr Eliffant gyda pensiliau lliw**
2. Magw Ifan 3. Efan Aubrey
**Blwyddyn 1 a 2 : Anifail allan o glai**
2. Leusa Jenkins, Borth 3. Tomos Morgan, Tal-y-bont
**Blynyddoedd 3 a 4: Anifail allan o ffrwythau neu llysiau**
1. Daniel Morgan, Tal-y-bont 2. Gruffudd Jones, Tal-y-bont 3. Ieuan Meurig Evans, Tal-y-bont
**Blynyddoedd 5 a 6: Esgid law wedi ei haddurno**
1. Caio Lewis, Tal-y-bont 2. Alaw Morgan, Tal-y-bont

**PLANT YSGOL UWCHRADD**
**Eitem wedi ei wneud yn yr ysgol**
1. Martha Rhys Cosson 3. Swyn Jones, Tal-y-bont

**CLWB FFERMWYR IFANC**
**4 Cacen Gwpan**
1. a 3.Efa Saunders-Jones, Ffwrnais
**Eitem yn defnyddio siocled**
1. Martha Rhys Cosson
2. a 3. Efa Saunders-Jones

**CANLYNIADAU RASUS CWN SIOE TAL-Y-BONT 2024**
**Dosbarth 1**
**Ras i gwn defaid**
1. Enoc Jenkins - Dyfi 2. Enoc Jenkins - Dion 3. Anna Sistern - Cal
**Dosbarth 2**
**Ras i Ddaeargwn**
1. Ieuan Evans - Del 2. Defi Jones - Cantona 3. Charlotte Drakely - Joe
**Dosbarth 3**
**Ras i Filgwn neu Chwn potsiwr**
1. Pete Jones - Stan 2. Ewan Wells - Fly 3. Bow - Rocky
**Dosbarth 4**
**Ras i Filgwn bach**
1. Barry Thomas - Benji
**Dosbarth 5**
**Ras i unrhyw frid arall coes byr**
1. Stuart Gethin - Moose 2. Stuart Gethin - Mable 3. Anna Sistern - Puffin
**Dosbarth 6**
**Ras i unrhyw frid arall coes hir**
1. Kris Fry - Indy 2. Kris Fry - Solly 3. Eiri Bonner - Misy
**Dosbarth 7**
**Ras i Ddisgyblion ysgol Gynradd a'u cwn**
1. Ieuan Evans - Del 2. Lloyd Morgan - Mal 3. Gruffudd Jones - Bela
**Dosbath 8**
**Ras i ddisgyblion ysgol Uwchradd a'u cwn**
1. Iori Jenkins - Mili 2. Eiry Merriman - Trefor Wyn 3. Mari Evans - Del
**Dosbarth 9**
**Ras i ferched a'u cwn**
1. Eifiona Evans - Del 2. Kirsten Hughes - Misty 3. Cadi Jenkins - Mili
**Dosbarth 10**
**Ras i ddynion a'u cwn**
1. Lewis Elis Jones - Mili 2. Rhydian Evans - Mal 3. John Howarth - Lowla

# Yn NATURiol



Yn ystod Sioe Tal-y-bont cynhaliodd y 'Tal-y-bont Floodies', gyda chefnogaeth Tir Canol, stondin gymunedol wych - stondin 'Natur Y Fro', a chafwyd dros 200 o ymwelwyr!

Roedd y sesiynau galw heibio ar y stondin yn cynnwys Mike, Mick, Linda, Naomi, Siân S, Liza, Rosi a Dianne, a bu llawer o rai eraill yn cyfrannu hefyd! Rhoddodd Steve Pickup o'r cwmni "Willow Bank" arddangosfa o sut i adeiladu 'argae sy'n gollwng'.

Barn y "stondin drws nesaf" oedd bod y stondin "yn wych, ac yn apelgar, lliwgar, prysur, cyfeillgar, hwyliog ac addysgiadol."

Ariennir Prosiect Cynnal:Llif gan Ymddiriedolaeth Esmee Fairbairn.

Naomi Smith

# Colli Mai



*Mai, gyda'r gwpan a enillodd yn Sioe Tal-y-bont ym 2017*

Yn 84 oed, ddiwrnod ar ôl ei phenblwydd ym mis Mai, bu farw Mai Leeding, Glannant, Tre Taliesin gynt.

Clamp o gymeriad oedd Mai, un o Gymry cynhenid ola' Taliesin oedd wedi ei geni a'i magu yn y pentre. Dros nifer fawr o flynyddoedd bu Mai yn gefnogol i'r pethe ac yn aelod ffyddlon o Rehoboth, y Cwrdd Chwiorydd a chymdeithasau'r pentref. Byddai'n cyfrannu'n aml at Papur Pawb gan ddangos dawn ysgrifennu celfydd. Bu'n aelod gweithgar o Ferched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch gan drefnu sawl gwibdaith a thaith gerdded diddorol gyda chymorth John ei gŵr.

Doedd dim yn ormod iddi ac roedd yn ymateb i unrhyw gais gyda gwen a chwerthiniad braf. Bob blwyddyn yn Sioeau Tal-y-bont a Llangynfelyn byddai'n cystadlu yn yr adrannau planhigion tŷ a ffrwythau a byddai'n ennill yn gyson. Bu'n gaeth i'r tŷ yn ystod ei blynyddoedd olaf cyn symud i gartref gofal yn yr Amwythig i fod yn agosach i rai aelodau o'r teulu. Cydymdeimlwn â'r plant Maldwyn, Lowri a Rhun a'r teulu.

## Dathlu Papur Pawb 50/500



*Rhai o athrawon yr ysgol yn mwynhau'r te dathlu*

I ddathlu penblwydd Papur Pawb yn hanner can mlwydd oed cynhaliwyd te parti yn y Neuadd Goffa ar ddydd Sul 16 Mehefin. Roedd y Neuadd yn orlawn ac yn cynnwys sawl un a fu'n cyfrannu'n fawr at lwyddiant y papur dros y blynyddoedd.

Dosbarthwyd am ddim rifyn Mehefin Papur Pawb– rhif 500 – a oedd yn cynnwys dwsinau o hen ffotograffau a gyhoeddwyd dros yr hanner canrif diwethaf. Cyflwynydd y prynhawn oedd y Cynghorydd Catrin M S Davies, cadeirydd Cymdeithas Papur Pawb ac i gychwyn rhoddwyd amlinelliad byr o hanes y papur gan y golygydd cyffredinol presennol, Gwyn Jenkins. Dilynwyd hynny gan gôr plant yr ysgol yn canu.

Yna croesawyd i'r llwyfan yr arloeswyr a sefydlodd Papur Pawb ym 1974 sef Robat ac Enid Gruffydd, Hefin a Rita Llwyd a Gwilym Huws (nid oedd ei wraig Eleri yn gallu bod gyda ni ond anfonodd neges o gyfarchion). Cyflwynwyd iddynt gopiau wedi'u fframio o dudalen flaen y rhifyn cyntaf gan dri o blant yr ysgol. Cafwyd ymateb gan Gwilym a adroddodd ychydig o hanes cynhyrchu'r papur yn y dyddiau cynnar.

Yna canwyd cân y dathlu, a luniwyd gan Phil Davies ar y dôn 'Moliannwn', gyda Falyri Jenkins yn cyfeilio.

Roedd Susan Rowlands, Erglodd, wedi addurno y gacen ddathlu yn gelfydd ac fe'i thorrwyd gan Rita ac Enid i sain ffanffer ar y trwmped gan Tomos Breese. Dilynwyd hynny gan de blasus a weinyddwyd gan aelodau Cymdeithas Papur Pawb.

Yr oedd yn braf gweld hen wynebau a rhai newydd yn dathlu gyda'u gilydd a phawb yn gytun bod angen parhau i gyhoeddi ein papur bro ni gan obeithio y bydd modd i ni gynnal dathliadau eto yn y dyfodol.

GJ

### Treialon Cwn Defaid

Yn Nhreialon Cwn Defaid De Cymru daeth Dewi a'i gi Clwyd Bob yn Is-bencampwyr ac yn Nhreialon Ferwig llwyddodd Dewi a'i gi Jock i ennill y wobr gyntaf. Unwaith eto y mae Dewi wedi cael yr anrhydedd o gael ei ddewis yn aelod o dîm Cymru a fydd yn cystadlu yn y Treialon Cwn Defaid Rhyngwladol yng Ngogledd yr Alban. Dyma'r pedwerydd tro iddo gystadlu yno gyda Jock ei gi.

### Fandaliaeth

Mae debyg y bu nifer o achosion o fandaliaeth yn y gymuned yn ddiweddar. Ar nos Fawrth 3/4 Medi, rhoddwyd ceir ar dân y tu ôl i garej Davmor gan achosi niwed difrifol iddynt. Mae'r heddlu yn awyddus i glywed gan unrhywun sydd â gwybodaeth am y digwyddiad neu sydd a ffilm CCTV berthnasol.

### Sioe Haf

Mae'n siwr fod nifer ohonoch wedi mwynhau y sioe haf 'Charlie and the Chocolate Factory' yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn ystod y gwyliau. Un o'r prif gymeriadau yn y sioe oedd Heledd Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont, un sydd wedi serennu'n aml ar lwyfannau lleol.


## Anrhydedd



Llongyfarchiadau i Rowland Davies, Dolclettwr, ar gael ei anrhydeddu gyda Medal Hir Wasanaeth yn y Sioe Frenhinol eleni. Cafodd y fedal am ei wasanaeth o 45 mlynedd yn y Brifysgol.

Cafodd Iolo, mab Rowland a Bethan anrhydedd hefyd yn y Sioe gan ei fod yn un o'r beirniaid yn yr adran ddefaid ynghyd â Dafydd Williams ac Enoc Jenkins o Dal-y-bont.

Llongyfarchiadau i Janet Jones, Llwynglas ar ennill gwobr 1af, 2il a 3ydd yn yr adran goginio – tipyn o gamp!




*Yn y gwasanaeth yng nghapel Bethel ar 28 Gorffennaf, dan arweiniad Geraint Evans, cafwyd cyfle i gydnabod ac i werthfawrogi gwasanaeth ffyddlon Ieuan Morgan fel diacon dros gyfnod o hanner can mlynedd. Braf hefyd oedd cael cymdeithasu dros baned yn dilyn yr oedfa.*

### Pianothon



Fore Sadwrn 15 Mehefin cynhaliwyd Pianothon a Phaned yng nghapel Seion Aberystwyth i godi arian tuag at apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 'Ffynhonnau Byw' i godi arian at waith Cymorth Cristnogol yng Ngholombia. Un o organyddion y capel a fu'n cyfeilio yn ystod y bore oedd Elizabeth Evans, Taliesin. Llwyddwyd i godi £2,273 tuag at yr Apêl.

## Rachel Mills



Dros fisoedd yr haf bu sawl sêl o flodau lliwgar a phlanhigion i'r ardd y tu allan i Green Cottage, Tal-y-bont, cartref yr arddwraig Rachel Mills. Hi oedd wedi eu tyfu a gwahoddodd y gymuned i fynd â'r blodau a'r planhigion gan roi cyfraniad ariannol trwy'r blwch llythyrau! Llwyddodd Rachel i godi £300 tuag at yr elusen MND diolch i'w bysedd gwyrdd a gonestrwydd trigolion Tal-y-bont.
Llongyfarchiadau iddi a diolch iddi am ei haelioni a'i charedigrwydd.


# Treialon Cwn Defaid




*Eifiona a Rhydian yn cyflwyno'r gwobrau*

Oherwydd fod treialon eraill wedi dwyn ein diwrnod arferol, y dydd Mercher cyntaf yn Awst, bu raid i ni gynnal ein treialon ddiwrnod yn hwyrach ar y dydd Iau a chafwyd mochyn o ddiwrnod. Onibai am ryw awr yn y bore bu'n glawio drwy'r dydd a hynny yn drwm ar adegau. Hefyd daeth niwl tyn i lawr am ryw dri chwarter awr ganol y prynhawn pryd roedd yn amhosib i weld pen draw y cae a bu raid gohirio'r cystadlu am ychydig. Cynhaliwyd y treialon eleni eto yn Llety Ifan Hen drwy garedigrwydd y teulu, lle rydym wedi bod yn lwcus iawn gyda'r tywydd dros nifer o flynydddoedd. Dechreuodd y cystadlu yn brydlon am 8 o'r gloch y bore a daethpwyd i ben ychydig wedi 9 yr hwyr. Felly cafodd y beirniad, Arthur Morgan, nawr o Mwnt, Aberteifi (Arthur Pwllglas) ddiwrnod hir iawn. Daeth nifer o gystadleuwyr o'r cyfandir eleni eto ac un o'r rhain enillodd nifer o'r dosbarthiadau. Enillodd Guillivame Josien o Ffrainc y dull cenedlaethol gyda'i ast Rita a hefyd y trydydd wobr gyda Gyp gyda Dewi Tyngraig yn ail gyda Clwyd Bob. Daeth Ynyr Tanrallt yn bumed gyda Finn yn y Dosbarth yma. Aeth y wobr am y nofis yn y dull cenedlaethol hefyd i Guillivane Josien gydag Ynyr yn ail a Dafydd Tanrallt yn drydydd. Yn y dull De Cymru, Dewi enillod y Dosbarth gyda Tyngraig Meg a hefyd daeth yn ail gyda Beca. Roedd Ynyr yn bedwerydd yn y dosbarth yma eto gyda Finn. Dewi enillodd y dosbarth i nofis gydag Ynyr yn ail. Dyma oedd y canlyniad yn y dosbarth cyfyngedig i Geredigion hefyd. Dewi enillodd y wobr am y rhediad gorau cyn hanner dydd gyda Beca ond aeth y wobr am  rediad orau'r dydd i Ffrainc i Guillivame Josien. Ar ddiwedd y dydd, ac wedi iddi dywyllu, diolchodd y cadeirydd, Enoc Penbryn, i bawb oedd wedi ein cefnogi eleni eto, i'r beirniad, i'r stiwardiaid ac yn enwedig i deulu Llety Ifan Hen am fenthyg y cae a'r defaid. Yna gofynnodd i'r llywyddion Rhydian ac Eifiona Tynant i gyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr.

Ieuan Morgan




## O Bont-goch i 10 Downing Street

Pan ddaethom i fyw i Bont-goch yn 2002 roedd teulu hyfryd yn byw drws nesaf i Bantgwyn yn Hafod Elerch. Roedd y diweddar Mike Lowe yn ffrind da ac yn gyd-fyfyriwr â mi, ac roedd ef a'i gymar Sue a'r plant George a Florrie Lithgow yn gymdogion hyfryd a charedig.



Mae Florrie ar ei blwyddyn olaf yn dilyn cwrs gradd ym myd Dylunio Cynnyrch (Product Design) ym Mhrifysgol Nottingham ac mae George bellach yn gweithio fel gohebydd i'r Press Association ers 2023, ar ôl graddio o brifysgolion Birmingham ac Ysgol NewyddiaduraethCaerdydd. Yn ddiweddar bu George yn dilyn taith y Prif Weinidog Keir Starmer i Gymru, ac fe'i clywir yn aml yn gofyn cwestiynau iddo yng nghynadleddau i'r wasg yn Downing Street.

Dyma lun o George yn sefyll wrth y podiwm yn rhif 10 gan smalio ei fod yn Brif Weinidog - tynnais ei goes y dylai fod wedi newid y faner i'r Ddraig Goch cyn i Syr Keir gyrraedd!

Richard Huws

## Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Papur Pawb

Daeth criw da at ei gilydd i Gyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ar 9 Gorffennaf yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Diolchwyd i'r Golygydd Cyffredinol, golygyddion y mis, y dylunwyr, y gohebyddion, y dosbarthwyr, hysbysebwyr a'r cyfranwyr eraill am sicrhau bod deg rhifyn graenus a diddorol wedi ymddangos yn ystod y flwyddyn.

Diolchwyd yn arbennig i bawb am eu cefnogaeth a'u gwaith caled gyda dathliadau Papur Pawb yn 50 oed yn y Neuadd Goffa ar y 16 Mehefin. Nodwyd mor braf oedd gweld y Neuadd yn llawn wrth gyrraedd y garreg filltir bwysig hon a bod ysbryd cymunedol yr ardal wedi ei weld ar ei orau.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 2024-25:

Cadeirydd: Catrin M S Davies
Is-gadeirydd: Liza Tomos
Ysgrifennydd: Rhian Evans
Trysorydd: Rebecca Williams
Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins

Mae llwyddiant y papur yn ddibynnol ar gyfraniad tua 40 o wirfoddolwyr sy'n cefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r papur. Cofiwch gysylltu gyda'r Golygydd Cyffredinol os oes gyda chi ddiddordeb mewn cynorthwyo gydag unrhyw agwedd o waith y papur. Edrychwn ymlaen at weld Papur Pawb yn ffynnu i'r dyfodol.

## Cymorth Cristnogol

**Casgliad 2024**

Bontgoch / Richard Huws - £211.22
Rownd y Felin / Helen Jones - £8.24
Maesyderi a Phenrhiw / Nia Richards - £123.02
Ardal Cynnullmawr / Dei Nutting- £227.00
Maesyfelin a Stryd y Capel / Fal Jenkins - £209.10
Parsel Henllys / Wendy Watkin a Janet Jones - £150.55

Cyfanswm - £929.13

Diolch i Helen Jones, sy'n dymuno cael saib o'r casglu, am ei pharodrwydd i gynorthwyo ers llawer o flynyddoedd.

Ar ran y pwyllgor hoffwn ddiolch i bawb am y rhoddion hael ac i'r casglwyr a fu'n eu derbyn.

Janet Jones

# Yr Eisteddfod Genedlaethol

Roedd gan ddau o gyn ddisgyblion Ysgol Tal-y-bont rannau allweddol ac amlwg yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Yn y Pafiliwn ar y nosweithiau Sadwrn a Llun, llwyfannwyd fersiwn newydd sbon a mentrus o'r opera roc Nia Ben Aur. Yn chwarae un o'r prif rannau, Y Cychwr, oedd Ioan Gwyn, Maesgwyn, Tal-y-bont. Ac os na fuoch yn ddigon lwcus i gael tocyn i'r perfformiadau, byddwch yn falch o glywed y cewch gyfle i'w gweld ar y teledu yn ystod yr Hydref.

Gwelwyd Niamh O'Donnell, Maesnant, Tal-y-bont hefyd ar lwyfan y Brifwyl yn ystod seremoni Tlws y Cyfansoddwr, gan ei bod yn un o feirniaid y gystadleuaeth.









# Licris Olsorts yn serennu ym Mhontypridd



Cafodd Cwmni Drama Licris Olsorts lwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf eleni wrth iddynt gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Actio Drama neu Waith Dyfeisiedig gyda drama bwerus Emyr Edwards, Apocalyps. Gweni King (Dole) ac Ifan Clubb (Llandre) oedd y cast gyda Sion Pennant (Bontgoch) yn cynhyrchu a Sharon King (Dole) yn cofweini. Yng nghanolfan YMa, Pontypridd nos Sadwrn gyntaf yr Eisteddfod y cynhaliwyd y gystadleuaeth. Enillodd Sion Pennant wobr y Cynhyrchydd Gorau am y perfformiad yn ogystal.

Cafodd y perfformiad ganmoliaeth uchel gan y beirniaid, Carys Edwards a Lowri Cynan, gan bwysleisio pa mor bwysig yw'r gystadleuaeth yma er mwyn datblygu talentau perfformio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig wedi i nifer o wyliau drama gael eu colli dros y blynyddoedd diwethaf.

Hon yw'r ail waith i'r cwmni ennill y brif wobr berfformio yn adran Theatr yr Eisteddfod Genedlaethol. Daeth y cwmni i'r brig bymtheng mlynedd yn ôl yn Eisteddfod y Bala yn 2009 wrth berfformio'r un ddrama!

Cafodd y ddrama ei pherfformio yng Ngŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn Neuadd Rhydypennau fis Mai ac yn Llanafan fis Mehefin. Bu'r cwmni hefyd yn cystadlu yng ngwyliau drama'r Groeslon a Gŵyl Ddrama Eisteddfod Môn, ble daeth y cwmni'n ail agos iawn, yn ôl y beirniaid.

Bydd Gweni yn mynd i astudio BA mewn Astudiaethau Theatr a Pherfformio ym Mhrifysgol Bryste ddiwedd mis Awst a bydd Ifan yn mynd i Brifysgol Abertawe i astudio Geneteg, ond gobeithiwn yn fawr byddant yn dychwelyd i actio i gwmni Licris Olsorts eto'n fuan.







## Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Ar 14 Mehefin aeth aelodau'r gangen ar daith i ardal Mawddwy. Y ddwy chwaer, Mair ac Enid oedd yn gyfrifol am y trefniadau hwylus. Ym mhentref bychan Mallwyd, ar y ffin rhwng siroedd Meirionnydd a Maldwyn y dechreuodd yr ymweliad. Wrth gerdded at yr eglwys cafwyd tipyn o syndod wrth weld yr asgwrn morfil yn crogi uwchben y porth.



Mentrwyd i mewn a gwelwyd ei fod yn adeilad anarferol, yn hir ac yn isel, gyda'r seddi cefn ar oledd. Sefydlodd Tydecho'r eglwys yn y 6g ond mae craidd yr adeilad presennol yn dyddio o'r 14g. Gan fod Megan Mai wedi cael ei magu nepell, cafwyd ganddi ychydig o hanesion yn gysylltiedig â'r eglwys a'r ardal. Ni ellir sôn am hanes Mawddwy a Chwm Dugoed, heb gyfeirio at Wylliaid Cochion Mawddwy. Dywedodd Megan ei bod yn cofio yn 60au'r ganrif ddiwethaf, i ddwy bladur a osodwyd ar ffurf croes, gael eu darganfod yn y simne fawr yn un o ffermydd Cwm Tafolog gerllaw. Roedd hyn yn arfer cyffredin yn yr ardal mae'n debyg, er mwyn atal y Gwylliaid!

Rhyw hanner can mlynedd yn ddiweddarach, ym 1604 penodwyd John Davies yn ficer Eglwys Mallwyd gan yr Esgob William Morgan, cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg. Tra'n reithor ym Mallwyd gweithiodd John Davies yn galed iawn ar ran ei blwyfolion a gadawodd waddol sylweddol. Cydnabyddir yn gyffredinol mai ef oedd yn bennaf gyfrifol am addasu a chywiro y fersiwn diwygiedig o Feibl William Morgan ym 1620. Rhyfedd meddwl mai'r fersiwn hwnnw gafodd ei ddefnyddio tan i'r Beibl Cymraeg Newydd gael ei gyhoeddi ym 1988! Bu hefyd yn gyfrifol am argraffiad diwygiedig o'r Llyfr Gweddi Cyffredin Cymraeg, am y llyfr gramadeg Cymraeg cyntaf a bu'n gyd-gyfrifol am y GeiriadurCymraeg cyntaf. Bu'r Dr John Davies yn byw ym Mallwyd hyd ei farwolaeth ym 1644 a gwelsom y maen coffa iddo yn yr eglwys. I gael blas ar hanes lliwgar Mawddwy, Mallwyd a John Davies y cyngor yw i chi ddarllen Sgythia,nofel Gwynn ap Gwilym, un arall o gyn-reithoriaid galluog Mallwyd (1986 i 2002). Bu'r Dr John Davies yn gyfrifol am adeiladu tair pont o garreg na fyddai'n cael eu hysgubo i ffwrdd gan y llifogydd. Mae modd gweld y pontydd a adeiladwyd hyd heddiw a phan symudwyd y ceir i faes parcio Melin Meirion ym Minllyn, Dinas Mawddwy cafwyd cyfle i weld, pont Ffynant sy'n croesi'r Ddyfi yno. Wedi gweld y bont symudwyd i bentref Dinas Mawddwy.

Yng Nghaffi'r Hen Siop yr oedd te prynhawn hyfryd wedi ei baratoi ar ein cyfer. Cafwyd blas ar y sgwrsio wrth ymlacio cyn troi am adref. Diolchwyd i Mair, Enid a Megan Mai am drefnu prynhawn ardderchog i gloi rhaglen y gangen am y tymor.

MM

## Cneifio Cyflym Tal-y-bont 2024

Cafwyd noson hwyliog a phrysur ar Fferm Tanrallt, Tal-y-bont ar nos Sadwrn, 24 Awst, gyda chystadleuwyr o bell (iawn) ac agos (iawn, iawn!) yn ymrafael â defaid, balwns, gwynt a glaw. Yn swn sylwebaeth craff Rhys Richards, Dewi Jenkins, Rhys Evans a Geraint Jenkins, ac o flaen torf barchus (o ran eu niferoedd, o leia) daeth tua 70 o gneifwyr medrus i gystadlu yn erbyn y cloc, a'i gilydd. Y beirniaid anrhydeddus oedd Lynwen Jenkins (Garej Ty Mawr, Penrhyn-coch), Idwal Griffiths (Glant) a Gaenor Evans (Hendrerhys).

Dyma'r canlyniadau:

**Juniors**

1. Deian Llwyd 22.74
2. Ieuan Breese 25.26
3. Bedwyr Clwyd - 26.35

**Intermediates**

1. Deian Llwyd -23.28
2. Bedwyr Siencyn – 23.83
3. Ilan Hughes - 32.87

**Y Merched**

1. Christine Wellington
2. Fflur Barhedyn
3. Megan Quail

**Seniors**

1. Emlyn Siabod – 18.16
2. Dewi Jenkins – 19.13
3. Osian Lewis - 21.28

**Yr adran hŷn**

1. John Breese – 21.35
2. Dafydd Tanrallt – 21.98
3. Gerallt Hendrerhys - 22.14

**Agored**

1. Huw Ants – 15.97
2. Emlyn Siabod – 21.23
3. Dion Ty Cerrig - 21.47




Y tîm a ddaeth i'r brig oedd yr Unbeatables, sef Dewi, Sara Rhys a Rich B.

Mae'n rhaid diolch i deulu Tanrallt am eu holl waith yn paratoi ar gyfer y noson arbennig hon, ac am groesawu pawb i'w haelwyd. Diolch hefyd i Huw Davies, Llety Ifan Hen, a'r teulu am gael defnyddio'u ŵyn eto leni.

Codi arian at achosion da yw holl bwrpas ein digwyddiad ni, a byddai dim o hyn yn bosib heb ein noddwyr hael. Rhaid diolch I deulu Jenkins, Nisa Ty Mawr, a Rogers & Taylor am fod yn brif noddwyr, i Ani-Bendod am noddi'r festiau cneifio, ac i'r busnesau lleol yma am eu cefnogaeth hefyd: Clare Wools, ALG Livestock, Hefin Morgan Steel Framed Buildings, Weldio Dafydd James, Rhys Lewis Agri Hire, Rhydian Evans Farrier, Plymio a Gwresogi Elfyn Tandy, RJ Edwards a'i fab, The Osteopaths North Parade, Rhodri Hopkins Adeiladwr, G&E Davies Agri Contractors, Asiant Tai Aled Ellis, Dylan Jarman Farm Machinery, LRJ Plumbing, Ystwyth Vets, Llaeth Teulu Jenkins, Arthur Morgan.

Diolch hefyd i holl aelodau'r gymuned, ac aelodau CFfI Talybont, am roi o'u hamser i gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi cyn y digwyddiad, a'r gwaith clirio wedi hynny.

Welwn ni chi y flwyddyn nesaf!

Sara Gibson

# 'Hanes Eisteddfod Bentref nad yw'n Bod Mwyach'

*Yn eisteddfod gadeiriol Penrhyn-coch ym mis Ebrill gwobrwywyd Carys Briddon, Tre'r Ddôl, am ei hysgrif ar hanes eisteddfod Bont-goch. Drwy garedigrwydd yr eisteddfod a Carys, cyhoeddwn yr ysgrif ddifyr yma.*

Mae'r arfer o gynnal Eisteddfod neu Gyfarfod Cystadleuol wedi prinhau yn ddirfawr mewn nifer fawr o ardaloedd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond rhaid diolch fod nifer o bentrefi yn dal i gynnal eisteddfodau llwyddiannus er gwaethaf yr anawsterau a wynebant.



*Cadair Eisteddfod 1925*

Pan oeddwn yn blentyn ym mhentref Bont-goch yn ystod y 1950au, cynhelid cyfarfodydd cystadleuol (neu sosials) yno yn weddol aml yn ystod y gaeaf. Roedd plant yr ysgol bob amser yn cystadlu mewn nifer o wahanol gystadlaethau, megis canu, adrodd, llawysgrifen, arlunio ac yn y blaen, a chofiaf am y wefr pe byddwn mor lwcus ag ennill gwobr ar y noson. Byddai'r gwragedd yn paratoi gwledd o fwyd i'r gynulleidfa eang ar ddechrau'r noson, cyn bod y cystadlu brwd yn dechrau. Roedd yr ysgoldy yn llawn at yr ymylon, a llawer o'r dynion yn gorfod sefyll yn y cefn gan nad oedd lle iddynt eistedd. Erbyn diwedd y noson roedd y waliau yn dripian gan y llaithder oddi mewn, a'r cystadlu yn mynd ymlaen hyd yr hwyr. Ond gwaetha'r modd ymhen amser, daeth y nosweithiau hwyliog yma i ben ac ni fûm yn cystadlu rhyw lawer ar ôl gadael yr ysgol. Rhaid cofio fod diboblogi yn broblem fawr yn y pentrefi gwledig ar ganol y ganrif ddiwethaf, ac roedd hynny'n wir am bentref Bont-goch ac o'r herwydd symudodd sawl teulu o'r pentref yr adeg honno.

Ond nid felly yr oedd yn hanes y pentref yn y dyddiau a fu gan fod teuluoedd mawr yn byw ac yn gweithio yn y gymdogaeth, a nifer ohonynt yn byw yn y tai a'r ffermydd mwyaf anghysbell. Bu fy Nhad-cu yn ohebydd lleol i'r Cambrian News a'r Welsh Gazette am flynyddoedd, ac yn cadw llyfrau lloffion, felly mae pob hanesyn am ddigwyddiadau'r ardal a thu hwnt wedi eu cadw a'u cofnodi yn ei lyfrau lloffion.

Mae'n debyg fod Cyfarfodydd Cystadleuol yn cael eu cynnal bob mis yn ystod y gaeaf ar un adeg, a hynny un ai yn yr Ysgoldy, yng Nghapel Ebeneser, yng Nghapel Bethesda Tynant, ac yn y dyddiau cynnar yng Nghapel Seion Ceulan. Mae Dyddiadur fy Nhad-cu am y flwyddyn 1905 yn fy meddiant, ac yn ôl hwnnw roedd eisteddfod yn cael ei chynnal yn y pentref bryd hynny hefyd, ac yntau wedi ennill mewn sawl cystadleuaeth. Mewn adroddiad am Gyfarfod Cystadleuol yn 1922 diolchwyd i'r plant am eu ffyddlondeb i'r Band of Hope yn ystod y gaeaf, ac i'w rhieni am eu diddordeb wrth ofalu bod y plant yn ei fynychu. Cyfeiriwyd hefyd at y rhai a fu'n hyfforddi'r plant bob wythnos, a'u canmol oherwydd iddynt wneud mwy gyda'r plant yn ystod y gaeaf hwnnw nag a wnaed yn yr ugain mlynedd cynt. Roeddent yn eithriadol o ffyddlon ar bob tywydd, gan weithio yn dawel a dirodres, a hynny o gariad at y gwaith, ac nid er mwyn cael eu gweld gan eraill. Roedd y beirniad ar y noson wedi rhyfeddu clywed rhai o'r plant lleiaf yn darllen, ac yn y blaen, ac yntau'n falch iawn fod y plant yn dod yn eu blaenau mor dda. Mae'n debyg mai brodor o'r pentref oedd ef, a dywedodd nad oedd dim yn ormod ganddo i'w wneud er mwyn y pentref, ac wrth wneud ei orau fel hyn yr oedd ef yn gallu talu'n ôl am y drafferth yr oedd yr hen dadau wedi ei gymeryd gydag ef pan oedd yn blentyn i'w osod ar ben y ffordd i ddatblygu.

Roedd y Cyfarfodydd Cystadleuol hyn yn fodd i godi arian at ryw achos lleol arbennig, ac un yn 1922 yn codi arian i gael cysylltiad ffôn rhwng Bont-goch a Thal-y-bont, ac un arall er budd Cymdeithas y Nyrs yn Elerch a Threfeurig. Er bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal mor aml yn ystod y gaeaf, mae'n ddiddorol nodi fod tyrfa yn eu mynychu er gwaethaf y pellter roedd yn rhaid iddynt gerdded ar y noson. Yn 1924 dywedodd yr arweinydd fod gwir angen am neuadd yn Bont-goch gan fod yr Ysgoldy yn llawer rhy fach i gynnwys y dyrfa oedd yno. Wrth gwrs, roedd poblogaeth yr ardal yn llawer mwy niferus yr adeg honno, a phawb yn gwneud ymdrech arbennig i fynychu'r cyfarfodydd. Rhaid cofio mai cerdded i bobman a fyddent a hynny ym mhob tywydd, a gan amlaf cynhaliwyd y cyfarfodydd ar nosweithiau pan fyddai'r lleuad yn llawn er mwyn iddi oleuo eu llwybrau adref. Mae'n debyg fod eira mawr wedi disgyn yn yr ardal ym mis Chwefror 1929, ac adroddwyd, er nad oedd y lluwchfeydd eira wedi clirio, daeth tyrfa i'r eisteddfod yng Nghapel Bethesda Tynant, fwy na llond yr adeilad, a gorfu i lawer aros y tu allan yn yr oerfel.

Roedd aelodau'r teulu yn cymeryd rhan amlwg iawn ym mhob peth a oedd yn mynd ymlaen yn yr ardal, a fy Nhad-cu, Mam-gu a'u tri phlentyn yn ennill yn gyson yn y cyfarfodydd cystadleuol, yn enwedig mewn cerddoriaeth a barddoniaeth. Fy Nhad-cu oedd y cerddor (ac ef oedd y codwr canu yng nghapel Bethesda Tynant), gan ennill yn heolaidd am ganu deuawd gyda gwahanol bobl. Roedd ganddo hefyd Bedwarawd llwyddiannus yn ystod y 1930au, ac ef a fy Mam oedd dau o'r aelodau a'r ddau arall yn amrywio. Bu'n hyfforddi rhai o'r plant mewn Sol Ffa, ac erbyn y 1940au bu'n hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o'r teulu i gymryd rhan yn y cyfarfodydd cystadleuol. Roedd fy Nhad-cu a Mam-gu yn ennill yn gyson yn yr adran lenyddol hefyd am gyfansoddi pennill, llunio brawddeg, gorffen limeric neu linell goll. Mae cadair 'Eisteddfod Gadeiriol Bont-goch, Mawrth 1925' gennyf, a thybiaf mai fy Nhad-cu a'i henillodd. Yn ogystal â'r cystadlaethau uchod, roedd aelodau'r teulu yn ennill yn gyson mewn cystadlaethau gwau, gwnïo a gwaith coed hefyd yn y cyfarfodydd cystadleuol, a deuai llawer o bobl o'r pentrefi cyfagos i gystadlu ynddynt yn Bont-goch.

Caewyd yr ysgol yn y pentref yn 1958 gan fod nifer y plant wedi gostwng, ond cynhaliwyd sosial yn yr Ysgoldy yn flynyddol am rai blynyddoedd wedyn ond nid oedd llawer o gystadlu, dim ond gwahanol bobl yn cymryd rhan. Felly ar ôl cyfnod o hanner canrif a mwy daeth Oes Aur y cyfarfodydd cystadleuol yn y pentref i ben.

Erbyn hynny, tybed beth a ddywedai'r arweinydd hwnnw a grybwyllodd yn 1924 fod gwir angen am neuadd yn y pentref? Mae'n dda bod llyfrau lloffion fy Nhad-cu ar gael gennyf i gofnodi eu bodolaeth a chofnodi enwau'r holl enillwyr yn ystod cyfnod llewyrchus cyfarfodydd cystadleuol Bont-goch.






# Cletwr

Mae diwedd yr haf yn nesáu, ond y cwestiwn mawr yw, pryd fydd yr haf yn cychwyn? Dydyn ni dim wedi cael tywydd bendigedig, haul di-dor, i ddweud y lleiaf. Ac mae'r tywydd (a phroblemau eraill) wedi cael effaith negyddol ar bob busnes yn ein hardal ni, - siopau, tafarndai, gwestai, caffis – gan gynnwys Cletwr. Mae'r caffi wedi bod yn llawn yn aml, ond dim mor brysur ag yr oedd cyn y Pla.

Rydym wedi bod yn gwneud arbrofion mewn ymgais i ehangu'r busnes a lleihau costau. Diolch am eich amynedd gyda hyn. Agorwyd y caffi am 9 yn hytrach na 9.30 a daeth y gwasanaeth brecwast i ben am 12.00 i ganolbwyntio ar ginio a 'Specials' am sbel, ond bellach rydym nôl i 9.30, ac mae brecwastau (a'n rholiau blasus bacwn) ar gael tan 2. Felly, mae'n bwysicach nag erioed inni gefnogi ein busnesau lleol cymaint ag sy'n bosibl. Petasai bob person sy'n byw yng Ngheulan a Maesmawr yn gwario dim ond £5 ychwanegol yr wythnos mewn busnesau lleol - ein tafarndai, siopau, Davmor ayyb - byddai hanner miliwn o bunnau bob blwyddyn yn aros yn ein cymuned. Beth amdani?

Diolch eto i'r rhai sydd wedi bod yn defnyddio eu cyfrifon yn Cletwr, yn y siop a'r caffi. Mae hi wedi bod yn help mawr inni gael yr arian yn y banc yn gynnar. Byddem yn ddiolchgar i unrhyw un sy'n fodlon ychwanegu peth mwy o arian at eu cyfrif unwaith eto! Ac mae disgownt o 10% i bobl sy'n talu yn y caffi ar gyfrif, cofiwch!

Er ein bod ni'n dal heb Drefnydd Digwyddiadau, rydyn ni'n meddwl am pa fath o bethau rydyn ni'n gallu eu cynnal. Mae grwpiau Dal Ati a Chlonc a Gwau yn dal i fynd ,ac rydym yn gweithio ar noson 'Open Mic' yn y dyfodol agos. Posibiliad arall yw noson ffilm rhywbryd dros a gaeaf. Os ydych am ddefnyddio caffi Cletwr am ryw ddigwyddiad, boed yn barti preifat neu dipyn o'r hwyl i'r gymuned, cysylltwch â'r swyddfa.

Mae un peth mawr yn digwydd ar 29 Medi, diolch i'n grŵp garddio. Cynhelir ein diwrnod afalau blynyddol rhwng 12-3. Bydd Merched y Berllan a Gelli Deg Dyfi yn gwasgu afalau - dewch â'ch afalau i'w gwasgu a photelu'r sudd. Talu drwy roddion. Hefyd, fe fydd coed ffrwythau a chnau treftadaeth ar werth a chyngor cyffredinol ar gael ar ofalu am berllan. Dewch yn llu. Edrychaf ymlaen at eich gweld chi yn y siop a'r caffi cyn bo hir. Wel, yn feunyddiol!

NC


**Diwrnod Afalau Cletwr**

**Dydd Sul 29 Medi 12-3**

Gwasgu afalau gyda Merched y Berllan a Gelli Deg Dyfi. Dewch â'ch afalau i'w gwasgu a photeli ar gyfer y sudd. Talu drwy roddion.

Bydd coed ffrwythau a chnau treftadaeth ar werth a chyngor cyffredinol ar gael ar ofalu am berllan.





**Cymdeithas Waldo Williams ac**
**Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd**
**Prifysgol Aberystwyth yn cynnal**

**Darlith Waldo 2024**
**Waldo: Bardd y Lleiafrif Aneirif**

**Darlithydd: Menna Elfyn**

Ac yn lansio cyfrol arbennig

**Darlithiau Waldo**

Medi 27 2024
4 – 6 o'r gloch

Tŷ Trafod, Campws Penglais,
Prifysgol Aberystwyth

Angen tocyn er ei bod yn rhad ac am ddim trwy
htpps://darlithwaldo2024.eventbrite.co.uk

## Darlith Menna Elfyn
## Waldo: Bardd y Lleiafrif Aneirif

Darlithydd gwadd Darlith Flynyddol Cymdeithas Waldo eleni fydd Menna Elfyn o Gaerfyrddin. Cynhelir y ddarlith yn Nhŷ Trafod, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth ar ddydd Gwener, Medi 27 rhwng 4 a 6 o'r gloch.

Mae Menna yn adnabyddus am gyhoeddi cyfres o gyfrolau o farddoniaeth sydd gan amlaf yn cynnwys cyfieithiadau. Cyfrol o'r enw 'Bloedd' sy'n cynnwys cyfieithiadau i'r Arabeg yw'r ddiweddaraf. O ganlyniad caiff wahoddiadau cyson i ddarllen ei gwaith mewn gwyliau llenyddol ar draws y byd. Mae cyfrol arall o'i gwaith ei hun ar fin cael ei chyhoeddi hefyd gan gyhoeddwyr Bloodaxe o dan y teitl 'Parch'.

Mae hefyd yn gweithio ar gyfrol o gyfieithiadau o gerddi Waldo Williams y gobeithir ei chyhoeddi'r flwyddyn nesaf. Yn wir cafodd ei chyfieithiad o'r gerdd 'Preseli' ei llefaru gan Siôn Jenkins mewn cyngerdd yng Nghapel Pisga, Llandysilio, nos Wener Mai 10. Y noson honno perfformiwyd trefniant cerddorol Eric Jones o'r gerdd 'Preseli' am y tro cyntaf gan Gôr Cymysg Crymych.

Mae fersiwn sain o'r gyngerdd i'w glywed yn ei gyflawnder ar wefan Cymdeithas Waldo Williams. Ceir llawer mwy o wybodaeth am y bardd ac am weithgarwch y Gymdeithas ar y wefan hefyd. Ewch i waldowilliams.com

Mae'n rhaid y bydd gan Menna dipyn i'w ddweud am deithi meddwl Waldo o ganlyniad i'w hymdrech i drosi ei feddyliau ac efallai ambell atgof teuluol am y bardd ei hun.

**Mae angen cofrestru am docyn ar gyfer y ddarlith a'r lansiad er eu bod yn rhad ac am ddim. wnewch trwy *https://darlithwaldo2024.eventbrite.co.uk***

Erbyn hyn mae'r holl ddarlithiau wedi eu casglu ynghyd mewn un gyfrol Darlithiau Cymdeithas Waldo 2010-2024 a fydd yn cael ei chyhoeddi/lansio ar 27 Medi. Bydd y gyfrol ar werth ar ôl darlith Menna Elfyn ond, os na fedrwch ddod i'r ddarlith gallwch archebu copi drwy'r post.

Pris y gyfrol yw £30:00. (Cludiant am ddim drwy'r post.)

Sieciau yn daladwy i 'Y Faner Newydd'.

Dychwelyd at: Alun Ifans, Erw Grug, Maenclochog, Sir Benfro SA66 7LB

# Colofn Ben



Wrth i'r haf ddirwyn i ben, mae'n anodd peidio teimlo bod y tywydd wedi bod ychydig yn siomedig eleni. Er gwaetha'r diffyg cyfnodau sefydlog o heulwen, mae'n rhaid dweud fy mod i wedi cael modd i fyw yn ystod mis Gorffennaf ac Awst yn gwneud y mwyaf o'r hyn sydd gan Geredigion Preseli i'w gynnig, boed glaw neu hindda.

Rydw i'n teimlo'n ffodus iawn i alw'r lle yma'n gartref i mi, yn enwedig o wybod bod Ceredigion Preseli yn gyrchfan wyliau i nifer fawr o bobl o bob rhan o'r DU a thu hwnt, a hynny am resymau teilwng iawn. Mae ein hardaloedd arfordirol ymhlith y mwyaf godidog yn y byd gan ddenu ymwelwyr sy'n bachu ar y cyfle i ryfeddu at weld morloi a dolffiniaid yn y gwyllt, yn ogystal â mwynhau'r teithiau cerdded arfordirol. Mae cyfoeth o fusnesau bach unigryw yn ein trefi a phentrefi. O siopau dillad a nwyddau cartref i fragdai a dewis di-ri o hufen iâ, mae rhywbeth yma at ddant pawb. Mae'r sîn fwyd ar draws Preseli Ceredigion i'w ganmol gyda llawer o gaffis a bwytai wedi ennill enw da yn genedlaethol. Mae wedi bod yn bleser cefnogi ac ymweld â'r busnesau bach yma sy'n galon i'n cymunedau gwledig, a darganfod rhai newydd mewn ambell fan.

Does dim modd treulio'r haf adref heb ymweld â digwyddiad cymunedol neu ddau, o sioeau amaethyddol i wyliau i garnifalau. Rydw i'n gwerthfawrogi'r cyfle y mae'r digwyddiadau hyn yn ei gynnig i gwrdd â phobl o bob rhan o'r etholaeth, a'r cyfle i glywed yn uniongyrchol gennych chi am y pethau yr hoffech i mi eu codi yn y Senedd.

Rydw i a fy nghyd aelodau seneddol, yn wynebau hen a newydd, yn paratoi i ymlwybro nôl i'r ddinas fawr ar gyfer tymor seneddol arall, a hynny o dan Llywodraeth Lafur newydd Keir Starmer. Er y newid mewn llywodraeth, mae fy mlaenoriaethau i yr un peth a byddaf yn parhau i weithio'n galed dros gymunedau Ceredigion Preseli, yn eich cynrychioli chi yn San Steffan ac yn eich gwasanaethu'n lleol. Ers cael fy ethol ar y 4ydd o Orffennaf, rydw i wedi cynnal cymorthfeydd ym mhob cwr o'r etholaeth. Cofiwch fy mod i ar gael unrhyw bryd i gynnig cymorth neu gyngor. Mae croeso i chi gysylltu gyda mi drwy fy e-bostio ar ben.lake.mp@parliament.uk neu ffonio fy swyddfa ar 01570940333.



*Eryl Bray ac Ellen ap Gwynn yn y sioe yn lansio Clwb 200 Cronfa Cae Chwarae . Os am ymaelodi, cysyllter ag Ellen, Eryl, Nia Rhiwlan neu unrhyw aelod o'r is-bwyllgor cyn diwedd mis Medi. Y gost yw  £10 am flwyddyn.*

# Y Gair Olaf

Mae'r haf yn gyfle i ddarllen, ac ar y rhestr eleni roedd y gyfrol *Pathogenesis – How Germs Made History* gan Jonathan Kennedy. Â ninnau'n byw yng nghysgod y pandemig mwyaf ers dros gan mlynedd, mae'r gyfrol hon yn trafod effeithiau heintiau ar hanes dyn ar y blaned hon a'r gymdeithas rydym yn byw ynddi heddiw; o ddyddiau cynnar dynoliaeth i ddatblygiad amaethyddiaeth, cwymp ymerodraethau mawr megis Athen, Rhufain, y Mexica a'r Inca yng nghanolbarth yr Americas, ac yn fwy diweddar rôl heintiau megis Cholera yn natblygiad cymdeithas ddinesig ym Mhrydain y 19eg ganrif. Er i eiriau megis 'digynsail' ac 'eithriadol' gael eu defnyddio'n aml yn ystod COVID-19, mae hanes yn dangos i ni nad oedd dim newydd yn yr hyn ddigwyddodd a bod penodau o'r fath wedi digwydd yn gyson dros filoedd o flynyddoedd. Ei brif ddadl yw bod ein byd wedi'i ffurfio i raddau helaeth gan y bacteria a'r firysau sy'n rhan annatod ohono, ac yn wir ein bod ni fel bodau dynol wedi ennill a cholli yn eu sgil. Yn yr un modd ag y gorfodwyd dinasoedd i wario'n helaeth ar systemau carthffosiaeth a dŵr glân yn y 19eg ganrif yn sgil Cholera, dylai COVID-19 ein cymell ni i fynd i'r afael gyda'r hyn sy'n achosi salwch ac anhwylder yn ein cymdeithas ni heddiw.

Mi fyddai taclo anghydraddoldeb a sicrhau mynediad at ofal iechyd sylfaenol yma ac ar draws y byd yn ddechrau da, wedi'r cyfan y tlotaf sy'n dioddefodd fwyaf bob tro. All hynny ddim bod yn anodd, os bosib.

Arthur Dafis

NICEIC APPROVED CONTRACTOR
**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol
**M** 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

# Chwaraeon a Hamdden

## CINIO DATHLU



*James 'Geordie' Graham yn derbyn y darian gan Anthony Southgate am sgorio'r nifer uchaf o goliau y tymor diwethaf*

Cynhaliwyd noson fendigedig gan Glwb Pêl-droed Tal-y-bont ar nos Wener 5 Gorffennaf i ddathlu hanner canmlwyddiant y clwb presennol a ail-sefydlwyd yn nhymor 1973-4. Daeth dros 100 o gyn-chwaraewyr, rheolwyr, cefnogwyr a chwaraewyr presennol i ginio yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth a phawb mewn hwyliau da yn hel atgofion am y 50 mlynedd ddiwethaf. Cafwyd sawl stori ddiddorol, a dangoswyd sleidiau o gasgliad o luniau o'r cyfnod.

Yn ogystal, cyflwynwyd anrheg arbennig i Bryn Smith, sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r clwb fel chwaraewr a swyddog trwy'r holl gyfnod. Bu'n gwbwl hanfodol i lwyddiant a hiroedledd y clwb ar hyd y 50 mlynedd.


Dyma'r englyn gan Vernon Jones a gyflwynwyd iddo:

**Bryn**

Pum deg tymor rhagorol – ysgol Bryn
sgiliau brwd i'w canmol
mawr ei gamp lle mae gôl
yn llywio ein clwb lleol.

Cyflwynwyd hefyd nifer o wobrau i chwaraewyr llwyddiannus tymor 2023-24, gan gynnwys Llew Taylor, Patrick-Hutton Jones, Chris Foster, James 'Geordie' Graham, Dyfri Cunningham ac Ioan Joseph.

## Rali Ceredigion



Ar benwythnos olaf Awst cynhaliwyd Rali Ceredigion gyda'r ceir yn gwibio trwy Tal-y-bont wedi iddynt gwblhau cymalau rasio yn ardal Nant-y-moch. Bu nifer o bentrefwyr yn eu gwylio. Enillwyd y Rali gan y gyrrwr o Seland Newydd, Hayden Paddon.

## Chwaraewr Gorau



Llongyfarchiadau i Daniel Morgan, Alltgoch, ar ennill gwobr chwaraewr gorau dan 9 yn nhwrnament pêl-droed Bow Street ym mis Gorffennaf yn chwarae i Cewri Ystwyth yn erbyn timau ar draws Cymru, o Bwllheli i Bont-y-clun.

## Newyddion Da

Mae Papur Pawb yn cael ar ddeall y bydd pêl-droed yn dychwelyd i Gae'r Odyn Galch wedi saib o saith mlynedd. Prynwyd y cae gan deulu Cynnull-mawr sy'n awyddus i weld y gymuned yn defnyddio'r cae ar gyfer pêl-droed a chwaraeon eraill. Mae disgwyl i hyn ddigwydd ym 2025.

Ar hyn o bryd mae timau pêl-droed oedolion a ieuenctid Tal-y-bont yn chwarae eu gemau yn Aberystwyth ac fe fydd yn braf medru chwarae a gwylio gemau unwaith eto yn y pentref.

Mae Cymdeithas Maes Chwarae Tal-y-bont a'r Cylch wedi cwrdd gyda'r teulu ac y mae trafodaethau'n parhau.

Bydd mwy o newyddion am y datblygiadau cyffrous hyn yn ymddangos yn Papur Pawb dros y misoedd nesaf.






pp medi 24 - lluniau lliw.qxp_Layout 1  28/08/2024  6:38 am  Page 1

# Hwyl yr Haf

ATODIAD LLIW PAPUR PAWB    MEDI 2024



*Nia Richards a Ceri Jones yn rhannu'r gwpan am y nifer uchaf o farciau yn yr adran goginio*

## Sioe Tal-y-bont



*Dafydd ac Osian yn bugeilio'r defaid Texel a ddaeth â gwobrau i fferm Allt-goch*



*Y beirniad Arwyn Wilson yn gwobrwyo buwch Holstein a dywyswyd gan Rhodri Richards ar ran fferm Cerrigcaranau*



*Elsbeth a Ffion Jones, Berthlwyd, gyda'u ci defaid buddugol*



*Claire Fowler yn fuddugol gyda'i chasgliad o lysiau ar hambwrdd*

pp medi 24 - lluniau lliw.qxp_Layout 1 28/08/2024 6:38 am Page 2



*Y beirniad Huw Roberts yn dyfarnu'r bencampwriaeth yn yr adran da duon i deulu Tanrallt*



*Magw Evans a'i llun buddugol lliwgar*



*Erin Aubrey, trydydd am ei chasgliad o flodau gwyllt*




*Caio Lewis, 1af am ei esgid law wedi ei haddurno*



*Megan Williams, Tre'r Ddôl, ar gefn 'Blaenmorlais Sinatra'*



*Llywydd y Sioe, Janet Jones, yn derbyn basged o flodau gan ei hŵyr Tomos*




*Rhian Nelmes, 1af am ffotograff du a gwyn*

pp medi 24 - lluniau lliw.qxp_Layout 1 28/08/2024 6:38 am Page 3



*Diddordeb mawr yn yr arddangosfa cyffeithiau yn y babell*



*Y beirniad Karen Beasley yn edrych yn fanwl ar un o'r cŵn*



*Cath Lloyd-Willams,*
*1af am gasgliad o berlysiau*



*Burlwm y prynhawn ar faes y Sioe*

## Y Sioe Fawr…



*Ynyr a Bedwyr, Tanrallt, gyda'u buwch fuddugol*



*Teuluoedd Cerrigcaranau a Wyleiriog gyda'r gwpan sy'n cael ei rhannu rhyngddynt â theulu Tanrallt am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran Gwartheg Duon*

pp medi 24 - lluniau lliw.qxp_Layout 1  28/08/2024  6:38 am  Page 4

## Papur Pawb 50/500…



*Côr Ysgol Tal-y-bont yn canu cân arbennig i ddathlu'r achlysur*



*Rita Llwyd ac Enid Gruffydd yn torri cacen penblwydd Papur Pawb*



*Pawb yn mwynhau'r te*



*Cyflwyno anrhegion i sylfaenwyr Papur Pawb*

## Diwrnod Hwyl…






*Rhai o fuddugwyr y Diwrnod Hwyl a noddwyd gan y Cynghorydd Catrin M S Davies o gwmni Unigryw*

Dylunio: stiwdioceri@gmail.com – Ffotograffau gan Arvid Parry-Jones, Iolo Ap Gwynn, Betsan Siencyn, Helen Jones a Fal a Gwyn Jenkins.

Noddwyd yr atodiad lliw hwn gan **Y Lolfa 01970 832304**